Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol

National Neurodivergence Team

# Adroddiad Blynyddol 2024/25

“Mae’r rhaglen Dysgu am Awtistiaeth wedi rhoi hwb mawr i ddealltwriaeth ein hysgol ni o awtistiaeth! Mae wedi rhoi syniad gwerthfawr i’r staff a’r myfyrwyr o brofiadau ac anghenion pobl awtistig. Mae rhannu’r wybodaeth â phawb wedi creu amgylchedd mwy cynhwysol ac annog pobl i ddangos empathi a chyfathrebu’n effeithiol. Yn sgil hynny, rydyn ni’n gweld bod ein myfyrwyr yn rhyngweithio’n well a bod gwell cefnogaeth ar gael i bob un ohonynt, sy’n gwneud cymuned ein hysgol yn gryfach ac yn fwy cydgysylltiedig.”

“Bues i yn nigwyddiad y bore ma, ac roedd yn hollol wych! Mor ymarferol, anogol, gan wneud i chi feddwl. Diolch”

“Diolch, roedd y cwrs yn cefnogi fy ngwybodaeth a’m dealltwriaeth a’m helpu i ddod i delerau â fy ADHD fy hun – cwrs gwych!”

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLlLC
WLGA

# Cynnwys


Rhagair: Wendy Thomas Pennaeth Gwasanaeth............02

Pennod 1: Cydweithio............................................................03

Pennod 2: Cyfathrebu ac Ymgysylltu....................................08

Pennod 3: Cod Ymarfer..........................................................18

Pennod 4: Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu....................22

Pennod 5: Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig............................................................29

Pennod 6: Addysg.....................................................................32

Pennod 7: Cymorth i Deuluoedd...........................................36

Pennod 8: Newid i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol..........................................................41

Atodiad: Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig 2024/25 Adroddiad Data........................................45

# Rhagair gan Wendy Thomas



Mae hwn yn teimlo fel rhagair teimladwy i'w ysgrifennu. Ar ôl 7 mlynedd, rwyf wedi ymddeol o'r tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ers mis Ebrill 2025. Fel y gwelwch o gynnwys yr adroddiad, mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn brysur iawn.

Parhaodd y tîm i drawsnewid o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol a chafwyd digwyddiadau a cherrig milltir nodedig yn ystod y flwyddyn:

- Y digwyddiad ail-lansio yn y Deml Heddwch ym mis Hydref 2024. Roedd y digwyddiad yn hyrwyddo'r newidiadau i'r tîm Cenedlaethol wrth ddathlu, myfyrio a dangos y cynnydd a wnaed yn y sector cyfan gan yr holl bartneriaid ym maes awtistiaeth a niwrowahaniaeth yng Nghymru.
- Symud yn llwyddiannus o wefan Awtistiaeth Cymru i wefan Niwrowahaniaeth Cymru.
- Datblygu adnoddau ar y cyd rhwng rhieni/gofalwyr a rhieni niwrowahanol.
- Cynhyrchu adnoddau ADHD.
- Datblygu'r ethos o gynhyrchu ar y cyd ymhellach ymhlith y tîm. Mae cynhyrchu ar y cyd yn parhau i fod wrth wraidd gwaith y tîm a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gyda'r tîm ac sy'n parhau i wneud hynny. Ni fyddai'r adnoddau, yr hyfforddiant a'r wybodaeth wedi bod o safon mor uchel nac yn berthnasol heblaw amdanoch chi.

Ar nodyn personol hoffwn ddiolch hefyd i'r tîm am eu gwaith caled ac ymroddiad parhaus, i CLlLC am eu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad ac yn olaf i Lywodraeth Cymru am eu cyllid, ymroddiad a ffydd barhaus yng ngwaith y tîm.

# Pennod 1: Cydweithio

## Gweithio Gyda'r Gymuned Niwrowahanol




Wrth wraidd cenhadaeth y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol i "helpu i wella bywydau pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yng Nghymru" mae ymrwymiad i gyd-gynhyrchu. Mae pobl niwrowahanol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o siapio pob agwedd ar waith y tîm, o ddatblygu adnoddau a hyfforddiant i gynllunio a darparu digwyddiadau. Mae eu profiadau, eu dealltwriaeth a'u harbenigedd yn hanfodol i sicrhau bod gwaith y tîm yn berthnasol, effeithiol a chynhwysol.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, cafodd y **Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi** ei diweddaru eleni i gryfhau'r cyfleoedd i fudd-ddeiliaid ddylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r dull hwn yn cefnogi canlyniadau mwy cynhwysol, effeithiol a chynaliadwy.

***Cliciwch yma i gael mynediad at y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi***




Mae'r tîm yn parhau i weithio'n agos gyda grwpiau cynghori o bobl niwrowahanol a gweithwyr proffesiynol, gan gydnabod a gwerthfawrogi eu hamser, egni a'u hymroddiad i bob prosiect. I nodi'r newid o ganolbwyntio ar awtistiaeth i gylch gwaith ehangach ar niwrowahaniaeth, mae Grŵp Cynghori ar ADHD wedi datblygu adnoddau penodol i ADHD, yn cynnwys modiwl e-ddysgu **Deall Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)** sydd â chyfraniadau fideo gan aelodau o'r gymuned niwrowahanol.

***Cliciwch yma i gael mynediad at y modiwl e-ddysgu Deall ADHD***









Yn ogystal, mae'r tîm wedi cyd-gynhyrchu ffilm ar ADHD sy'n archwilio pynciau allweddol fel y mathau o ADHD, gweithrediad goruchwyliol a chof gweithredol, rheoleiddio emosiynol, dysfforia sensitifrwydd gwrthodiad a gohirio cyn gwneud rhywbeth. Mae'r ffilm yn cyfuno dealltwriaeth broffesiynol a phrofiadau go iawn i ddangos sut mae ADHD yn gallu effeithio ar fywyd bob dydd.

***Cliciwch yma i weld y ffilm 'Beth Yw ADHD?'***



Drwy gydweithio â'r Grŵp Cynghori Rhieni a Gofalwyr Niwrowahanol, mae'r tîm hefyd wedi cynhyrchu cyfres o drafodaethau sain lle mae rhieni a gofalwyr niwrowahanol yn rhannu chwalu mythau ac yn rhannu eu profiadau o ddiwallu anghenion amrywiol o fewn teuluoedd niwroamrywiol.

***Cliciwch yma i gael mynediad at y Trafodaethau Rhieni ND***

## Cydweithio Proffesiynol

Drwy gydol 2024/25, mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi parhau i feithrin partneriaethau cryf gydag amrywiaeth o unigolion sy'n gweithio yn y maes niwrowahaniaeth, a llawer ohonynt yn niwrowahanol eu hunain. Mae'r cydweithio yma wedi bod yn hollbwysig i hyrwyddo arferion cynhwysol a gwella dealltwriaeth sectorau gwahanol.





Mae'r tîm wedi parhau i ddarparu sesiynau Cymuned Ymarfer, gan ymdrin ag ystod eang o destunau sy'n berthnasol i niwrowahaniaeth. Mae'r sesiynau hyn wedi darparu gwybodaeth werthfawr ac ymarferol i weithwyr ar draws Cymru.

***Cliciwch yma i weld Sesiynau Cymuned Ymarfer***

Ochr yn ochr â hyn, mae'r tîm wedi gweithio gyda phobl niwrowahanol, sefydliadau trydydd sector a gweithwyr eraill i ddarparu cyfres o weminarau Cyngor Rhithwir i Rieni a Gofalwyr. Mae'r gweminarau hyn yn darparu gwybodaeth ar themâu allweddol ac yn cynnwys sesiynau holi ac ateb rhyngweithiol, gan greu gofod cefnogol i rieni a gofalwyr. Mae'r holl sesiynau ar gael i'w gwylio ar wefan Niwrowahaniaeth Cymru.

***Cliciwch yma i weld y sesiynau Cyngor Rhithwir i Rieni a Gofalwyr***

Mae'r tîm wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyfleu egwyddorion y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth drwy ei waith, gan gefnogi ffrydiau gwaith, gweithdai a digwyddiadau i archwilio dulliau sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'r tîm wedi ceisio cyfleu'r neges bod gwella bywydau pobl niwrowahanol yn gofyn am ddull system gyfan, lle mae pobl yn gallu cael mynediad at y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir heb ddiagnosis. Mae gweithio gydag Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol wedi bod yn allweddol i sicrhau bod y negeseuon hyn yn cael eu lledaenu ar draws Cymru.

## Rhwydwaith Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol

Mae'r tîm yn parhau i weithio'n agos gyda'r Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol ar draws awdurdodau lleol Cymru. Mae cyfarfodydd chwarterol yr Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol wedi bod yn llwyfan i ledaenu ymarfer gorau, rhannu gwybodaeth allweddol gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol a hysbysu polisi a chanllawiau cenedlaethol drwy rwydweithiau lleol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dal yn gonglfaen ar gyfer cydweithio a chyfnewid gwybodaeth ar draws Cymru.

## Grwpiau Strategol a Grwpiau Llywio

Eleni, un o ffocysau craidd y tîm oedd codi ymwybyddiaeth pobl o'i waith a hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi budd-ddeiliaid ar draws Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg a phobl niwrowahanol a'u teuluoedd. Gan sicrhau bod yr adnoddau yn dal yn berthnasol, mae'r tîm wedi ymgysylltu â budd-ddeiliaid i gasglu safbwyntiau, i nodi tueddiadau ac i ddeall yr heriau a'r rhwystrau sydd yn eu hwynebu.

I gryfhau'r dull hwn mae'r tîm wedi cynnal presenoldeb cryf o gydweithio ar draws Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â chymunedau niwrowahanol, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus a phreifat.

Mae bod yn rhan o'r grwpiau strategol a llywio hyn wedi rhoi cyfle i'r tîm gyfrannu at drafodaethau allweddol a dylanwadu ar benderfyniadau ar lefelau amrywiol, yn cynnwys lefel polisi.

**Mae'r Grwpiau Strategol a'r Grwpiau Llywio a fynychwyd yn 2024–2025 yn cynnwys:**

- Cyfarfodydd Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru
- Mae'r tîm yn rhan o 7 Grŵp Strategol Niwrowahaniaeth ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Grŵp Gweithredu a Sicrwydd Cenedlaethol ar gyfer Anabledd Dysgu Oedolion
- Grŵp Cynghori Gweinidogol Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru
- Grŵp Llywio Niwrowahaniaeth / Iechyd Meddwl Cenedlaethol
- Grwpiau budd-ddeiliaid awtistiaeth amrywiol ar draws Cymru
- Cymuned Ymarfer NYTH
- Grŵp Strategol Iechyd Meddwl
- Cyfarfodydd Ffrwd Waith Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru
- Grwpiau Cynghori Clinigol Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru
- Digwyddiad Dylunio Carlam Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth i wella llwybrau niwroddatblygiadol plant

## Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Newid Parhaol

Wrth wraidd dull y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol mae ymrwymiad dwfn i weithio efo pobl, ac nid ar eu cyfer yn unig. Drwy ganolbwyntio ar brofiadau a chydweithio'n effeithiol ar draws sectorau, mae'r tîm yn parhau i gyrraedd mwy o bobl gan godi ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth a hyrwyddo dull niwrogynhwysol ar hyd a lled Cymru.

Yn ogystal â chryfhau perthnasedd ac effaith gwaith y tîm mae'r ethos cynhwysol hwn hefyd yn helpu i hysbysu'r newid diwylliannol a'r newid agwedd sydd ei angen i feithrin cymdeithas lle caiff pobl niwrowahanol eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u galluogi i ffynnu.

# Pennod 2: Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Yn ystod y flwyddyn mae’r tîm wedi newid yn ffurfiol o fod yn Dîm Awtistiaeth Cenedlaethol i fod yn **Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol**, sy’n cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru i symud oddi wrth awtistiaeth i gwmpas ehangach.

Fis Ebrill 2024 bu i’r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol groesawu Swyddog Cyfathrebu, Ymchwil a Gwella newydd. Roedd Rachel Hazlewood yn arfer bod yn aelod o Grŵp Cynghori ar Awtistiaeth y tîm.

## Ystadegau Gwefan a Defnyddwyr




Caiff gwefan Niwrowahaniaethcymru.org ei rheoli gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ac mae’n dal yn rhan o brif gynnig y tîm, gan fod yn llwyfan i ystod o adnoddau dwyieithog rhad ac am ddim. Yn 2024/25 cafodd y wefan ei newid o **AwtistiaethCymru.org** i **NiwrowahaniaethCymru.org**.

Roedd y newid yn adlewyrchu cylch gwaith ehangach y tîm, gan ddod ag ystod o adnoddau at ei gilydd dan un to, yn cynnwys fideo ‘Beth yw ADHD?’, modiwlau e-ddysgu ar ADHD a syndrom Tourette, adnoddau i rieni a gofalwyr, a chynnwys penodol ar gyfer addysg.

Mae’r wefan newydd yn adlewyrchu'r angen i gynnig ystod ehangach o wybodaeth ddwyieithog a dibynadwy ar niwrowahaniaeth i unrhyw un sydd ei hangen ac mae’n parhau i fod yn rhad ac am ddim.

***[Cliciwch yma i gael mynediad at wefan Niwrowahaniaeth Cymru]***

Mae uchafbwyntiau'r wefan newydd yn cynnwys:

- Adnoddau newydd i rieni/gofalwyr fesul testun, yn cynnwys taflenni gwybodaeth a chyngor a sesiynau cyngor ar-lein i rieni a gofalwyr
- Trafodaethau Sain Rhieni Niwrowahanol sy'n sôn am amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys chwalu mythau a rheoli anghenion amrywiol
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Wefan, sy'n cwrdd yn rheolaidd i adolygu a diweddaru cynnwys
- Ffurflen adborth, sydd wedi'i hyrwyddo ar y wefan a drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Ffilm am ADHD a modiwl e-ddysgu Deall Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) wedi'u hychwanegu at y wefan
- Eitemau newyddion gyda gwybodaeth am ddigwyddiadau perthnasol

Yn 2024/25 cofnodwyd bod **169,254 o ddefnyddwyr** wedi defnyddio'r wefan a bod **427,128 o ymweliadau** wedi bod â'n tudalennau. Ar draws y flwyddyn, cofnodwyd bod **11,353 o fodiwlau e-ddysgu wedi'u cwblhau**, sy'n amlygu rôl y wefan i helpu pobl i ddeall profiadau niwrowahanol.

Daeth yr ymwelwyr â'r wefan o gynulleidfa ryngwladol eang, gyda'r **Deyrnas Unedig** yn cyfrif am **57.5% o'r defnyddwyr**, ac yna ymgysylltiad cryf o'r **Unol Daleithiau (8.6%), Awstralia (5.8%), Iwerddon (5.2%)**, a **Chanada (4.9%)**, ynghyd â lledaeniad o ddefnyddwyr o Ewrop a Seland Newydd.

Mae adnoddau fideo'r wefan hefyd wedi parhau i gyrraedd mwy o bobl a chael effaith. Yn 2024/25 cafodd y fideos eu gwylio **28,600 o weithiau**, sy'n dod i **4,507 o oriau**.

# Digwyddiad Ail-lansio



Fis Hydref 2024 cynhaliodd y **Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol** ddigwyddiad arbennig i ail-lansio'r tîm dan ei enw newydd yn swyddogol: y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, gan newid o'i hen hunaniaeth fel y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Yn ogystal â newid mewn enw roedd y digwyddiad hwn yn nodi gweledigaeth ehangach a mwy cynhwysol, gan adlewyrchu ymrwymiad y tîm i gefnogi ystod ehangach o brofiadau niwrowahanol ar draws Cymru.

Agorwyd y digwyddiad gyda neges bwerus a chadarnhaol gan y Gweinidog **Sarah Murphy**, a roddodd gydnabyddiaeth i waith trawsnewidiol y tîm ac atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gymunedau niwrowahanol. Bu i'w geiriau osod y cywair ar gyfer diwrnod o fyfyrio, dathlu ac edrych ymlaen.

Gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid yn bresennol, yn cynnwys pobl niwrowahanol, gweithwyr iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, a chynrychiolwyr o sefydliadau trydydd sector, roedd y digwyddiad yn amlygu dyfnder ac ehangder y cydweithio sy'n diffinio dull y tîm. Roedd y digwyddiad yn dyst i'r ethos cynhwysol sydd wrth wraidd gwaith y Tîm Niwrowahaniaeth.




Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd y lein-yp ysbrydoledig o siaradwyr gwadd, pob un yn cynnig safbwynt unigryw ar niwrowahaniaeth, ar lefel bersonol neu broffesiynol. Roedd y siaradwyr yn cynnwys:

- **Sian Lewis –** a rannodd safbwynt Llywodraeth Cymru a chynnydd y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth
- **Yr Athro Anita Thapar –** sy'n enwog am ei hymchwil i gyflyrau niwroddatblygiadol, yn arbennig ADHD
- **Ewan Richards –** a soniodd am ei daith fel dyn ifanc awtistig, ei waith gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'r gwahaniaeth y mae ei gyfraniadau yn ei wneud i fywydau pobl niwrowahanol yng Nghymru
- **Dan Jones –** a rannodd ei brofiad o niwrowahaniaeth, sut mae ei gyflyrau yn gorgyffwrdd ac yn cysylltu â'i gilydd, a sut mae niwrowahaniaeth yn cyflwyno cryfderau yn ogystal â heriau
- **Lisa Heledd-Jones –** a rannodd profiad personol dynes o Gymru yn darganfod bod ganddi ADHD, ei thaith i gael diagnosis a sut mae ei bywyd wedi newid ers hynny
- **Emma Durman –** a siaradodd am ei hangerdd am y rhaglen niwrowahaniaeth a'i thaith gyda'r tîm

Roedd eu cyfraniadau yn adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth lleisiau niwrowahanol Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd cyd-gynhyrchu a chydweithio.

Cafodd y digwyddiad ei gadeirio gan **Keith Ingram**, Arweinydd Awtistiaeth Cynghorau Caerdydd a'r Fro, ac roedd **Wendy Thomas**, Pennaeth Gwasanaeth Niwrowahaniaeth Cymru, hefyd yn bresennol i rannu taith y tîm a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yng Nghymru ym maes awtistiaeth. Hefyd, amlinellodd Wendy gylch gwaith ehangach y tîm a bu i **Donna Sharland**, Rheolwr Prosiect Trawsnewid Niwrowahaniaeth, gyflwyno'r modiwl e-ddysgu ADHD newydd a'r ffilm wybodaeth.




Roedd y digwyddiad yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud yng Nghymru i gefnogi pobl niwrowahanol ac yn llwyfan i amlinellu heriau a dyheadau i'r dyfodol. O wella'r mynediad at wasanaethau i wella dealltwriaeth y cyhoedd, cadarnhaodd y tîm ei ymrwymiad i sbarduno newid systemig a meithrin cymdeithas niwrogynhwysol lle mae pobl niwrowahanol yn cael eu deall, eu parchu a'u cynnwys.

Fel rhan o'r digwyddiad gwahoddwyd pawb i rannu eu hatgofion o'u **taith niwrowahaniaeth yng Nghymru** yn ogystal â rhai o'u **gobeithion ar gyfer y dyfodol**. Cafodd y sylwadau hyn eu nodi ar gardiau post wedi'u dylunio'n arbennig. Gellir gweld detholiad o'r sylwadau yma:

**Beth yw eich atgofion o daith Niwrowahaniaeth Cymru?**

*"Y deunyddiau e-ddysgu cefnogol a grymusol – rhoddodd y modiwl cyfathrebu ganiatâd a nerth i mi gyfathrebu yn fy ffordd niwrowahanol fy hun."*

*"Y cyfle i gymryd rhan a'r gefnogaeth gan y tîm, bydd hynny gobeithio yn aros gyda mi fel rhywbeth positif, hyd yn oed pan fyddaf yn ei chael hi'n anodd byw a cheisio gweithio gyda systemau sydd heb eu dylunio ar fy nghyfer."*

*"Cynllunio a gweithio ar y digwyddiad cyflogaeth i bobl awtistig efo'r grŵp cynghori."*

*"Rwyf wedi bod yma ers sefydlu'r NWIAS. Mae hi wedi bod yn daith o ddysgu a datblygu ar gyfer pawb, ac yn gofiadwy iawn. Roeddwn i wrth fy mod ar y Bws!"*

*"Y cymorth i ddeall mwy am awtistiaeth drwy'r modiwlau e-ddysgu".*

*"Mae'r esblygiad rydych chi wedi'i hwyluso eisoes wedi newid bywydau llawer o bobl. Mae wedi creu llawer o gyfleoedd sy'n gallu parhau i gynyddu."*

*"Y gynhadledd Awtistiaeth Cymru gyntaf yn Abertawe! Bod yn rhan o'r gwaith cynllunio a'r paratoi ochr yn ochr â phobl awtistig a'u teuluoedd!"*




**Beth yw eich gobeithion ar gyfer dyfodol Niwrowahaniaeth yng Nghymru?**

*"Mwy o bwyslais ar niwrowahaniaeth a'r croestoriadedd gyda nodweddion gwarchodedig eraill. Mae bod yn berson awtistig o liw yn brofiad gwahanol, felly hefyd os ydych chi'n berson anabl, trans ac yn awtistig."*

*"Effaith newidiadau hormonaidd ar ferched niwrowahanol: y glasoed, cylchred fislifol, perimenopos, menopos, beichiogrwydd, cyfnod amenedigol"*

*"AuDHD ac anghenion, nodweddion/cyflyrau yn cyd-ddigwydd."*

*"Deall gwybodaeth a chefnogaeth i oedolion niwrowahanol sy'n rhieni a drwy'r daith magu plant (dim dulliau niwronodweddiadol)."*

*“Ymarfer, polisi a phrosesau yn rhyngweithio â chefnogaeth niwrowahaniaeth ac iechyd meddwl fel ei fod yn cael ei weld fel rhywbeth sy’n cydfodoli. Plîs, daliwch ati i gryfhau’r maes yma fel nad yw plant heddiw yn dioddef pan fyddan nhw’n oedolion.”*


*“Deall, derbyn a chynnwys.”*

*“Byd cynhwysol drwy barhau i ddysgu a rhannu profiadau.”*

*“Cydnabyddiaeth bod y rhaniad rhiant/gweithiwr/unigolyn niwrowahanol yn aml yn un “ffug”. Mae pobl niwrowahanol yn aml iawn yn rhieni plant niwrowahanol a/neu’n weithwyr proffesiynol fel athrawon, doctoriaid, nyrsys, gweithwyr iechyd a gweision sifil.”*

*“Na fydd yn rhaid i mi frwydro, bod unigolion niwrowahanol eraill ddim yn gorfod brwydro; gyda chyflogaeth ystyrlon, a byw a ffynnu drwy fod yn nhw eu hunain.*

*“Hyfforddiant gorfodol ar gyfer pawb yn y gweithlu, o weithwyr rheng flaen i reolwyr comisiynu. Gofal cymdeithasol iechyd ac addysg/ysgolion/sector gwirfoddol. Mae gennych chi weledigaeth anhygoel ond, er mwyn ei gwireddu’n effeithiol, mae’n rhaid cael hyfforddiant cenedlaethol gorfodol i gyflawni newid.”*



## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi parhau i ehangu ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn 2024/25, gan **gyhoeddi negeseuon dyddiol yn Gymraeg ac yn Saesneg**. Cafwyd cynnydd o **1,258 o ddilynwyr** ar Facebook (**cynnydd o 51.5% o gymharu â 2023/24**) a chyfanswm o **6,625 o ryngweithiadau** ar y llwyfan. Ym mis Tachwedd bu i'r tîm newid o X i Bluesky, gan dderbyn **93 o ddilynwyr ychwanegol**.

Yn ystod y flwyddyn mae negeseuon cyfryngau cymdeithasol y tîm wedi cynnwys:

- Dathlu diwrnodau ymwybyddiaeth i amlygu niwrowahaniaeth a chroestoriadedd, gan gyfeirio at adnoddau ar y wefan ac adnoddau sefydliadau dibynadwy eraill
- Cefnogi a chreu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth ar adegau allweddol o'r flwyddyn, fel Gweithredu ar Tourettes, ymgyrch Tourettes Hurts; Mis Ymwybyddiaeth o Tourettes; Diwrnod Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd; Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd; Mis Derbyn Awtistiaeth y Byd; Mis Ymwybyddiaeth ADHD; Wythnosau Ymwybyddiaeth Dyslecsia a Dyspracsia; Diwrnod Ymwybyddiaeth DLD; Wythnos Dathlu Niwrowahaniaeth; ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Llywodraeth Cymru
- Hyrwyddo sesiynau cyngor ar-lein i rieni a gofalwyr
- Cyfeirio at adnoddau newydd, yn cynnwys fideos o sesiynau Cymuned Ymarfer a sesiynau cyngor i rieni a gofalwyr
- Rhannu eitemau newyddion
- Rhannu ac ail-rannu negeseuon perthnasol sy'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol
- Hyrwyddo digwyddiadau am ddim a grwpiau hygyrch yng Nghymru
- Amlygu a hyrwyddo digwyddiadau y mae'r tîm yn mynd iddynt i siarad neu arddangos

## Cyfathrebu Allanol

Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm wedi gweithio gydag amrywiaeth o gyrff yn y cyfryngau i helpu i hyrwyddo gwaith y tîm i gynulleidfa ehangach. Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth gyflwyno adnoddau'r tîm i fwy o bobl allu manteisio arnynt.

Dyma rywfaint o enghreifftiau o'r cydweithio yn y cyfryngau:

- Cyfweliad gyda sioe The Welsh Business Show, Hydref 2024
- Eitem ar Radio Cardiff, Ionawr 2025

- Cyfweliad gan ITV Wales, Ionawr 2025
- Cyfweliad gan BBC Wales, Chwefror 2025
- Cyfweliad gan Pure West Radio, Chwefror 2025
- Cyfweliad gan Radio Cymru
- Erthygl yn newyddlen Perinatal MH
- Gwefan BBC Wales
- Cylchgrawn digidol Kryon Media ar gyfer gweithwyr iechyd – y cyntaf o bedair erthygl a fydd yn cynnwys gwaith y tîm
- Canolbwyntio ar fodelau e-ddysgu, Mawrth 2025

## Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r tîm yn dal yn credu bod digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan hollbwysig o'i waith i hyrwyddo cynhwysiant a datblygu trefniadau cydweithio ar draws y system gyfan.






Yn 2024/25 aeth y tîm i sawl digwyddiad allweddol, yn cynnwys:

- Digwyddiad Lansio End Youth Homelessness – Ebrill 2024
- Prosiect Estyn Allan Chinese Autism, Senedd – Ebrill 2024
- Sioe Iechyd Meddwl a Lles yng Nghaerdydd – Mai 2024
- Digwyddiad Niwroamrywiaeth yn y Gweithle Senedd Insight – Mai 2024
- Cymuned Ymholi Caerffili/Torfaen – Mehefin ac Awst 2024
- Ffair Raddio Ysgol Haf Darganfod, Prifysgol Caerdydd – Gorffennaf 2024
- Cynhadledd Dyfodol Hygyrch Media Cymru, Caerdydd – Medi 2024
- Sioe fyw Autistic Minds, Caerdydd – Medi 2024
- The Welsh Business Show, Abertawe – Hydref 2024
- Neuroshow, Gwlad Pwyl – Hydref 2024
- Digwyddiad Ail-lansio'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol – Hydref 2024
- Digwyddiad Gwybodaeth Cymorth i Deuluoedd ASD, Awtistiaeth, ADY a Niwrowahaniaeth, Doc Penfro – Tachwedd 2024
- Cynhadledd Blynyddoedd Cynnar Gofal Cymdeithasol Cymru, Caerdydd – Tachwedd 2024

- Canolbwynt Cyngor ar Awtistiaeth Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Caerdydd a'r Fro – Ionawr 2025
- Digwyddiad Llwybrau Gwaith Niwrowahaniaeth / Anableddau Dysgu CTM – Ionawr 2025
- ALN Marketplace, Abertawe – Ionawr 2025
- Adran Addysg Cyngor Sir Gâr – Ionawr 2025
- Ffair Swyddi Gynhwysol Gyrfa Cymru, Caerdydd – Ionawr 2025
- Digwyddiad ADY Comisiynydd Plant Cymru, Llanelwy – Mawrth 2025
- Digwyddiad Cefnogi Niwrowahaniaeth Gorllewin Cymru, Caerfyrddin – Mawrth 2025
- Digwyddiad Brecwast Cyflogaeth Caerffili – Mawrth 2025

Mae'r tîm wedi mwynhau cwrdd â phawb dros y flwyddyn. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfleoedd gwych i gryfhau'r cysylltiadau rhwng budd-ddeiliaid. Drwy feithrin cyfranogiad hysbys ac amlygu safbwyntiau amrywiol, mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau a strategaethau yn cael eu siapio gan y rheiny sydd â phrofiadau bywyd. Mae hefyd yn cefnogi arloesedd ac yn sbarduno newid cadarnhaol ar draws sectorau.

Mae'r tîm yn gobeithio mynd i fwy o ddigwyddiadau yn 2025/26. Cofiwch gysylltu efo ni os oes gennych chi ddigwyddiad yr hoffech chi i ni ddod iddo.

Cysylltwch â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn: ***autismwales@wlga.gov.uk***

# Pennod 3: Cod Ymarfer



## Ymrwymiad Strategol a Fframwaith Deddfwriaethol

Gan adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau i bobl awtistig, cyflwynwyd Cod Ymarfer statudol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Awtistiaeth ym mis Medi 2021. Datblygwyd y Cod hwn dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf y GIG (Cymru) 2006. Mae'n amlinellu'r dyletswyddau sydd ar wasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd wrth ddarparu a gwella cefnogaeth gyson, deg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi chwarae rhan ganolog wrth ddatblygu a gweithredu'r Cod ers ei ddechrau, gan sicrhau bod ei egwyddorion wedi'u cynnwys ar draws gwasanaethau a bod ei effaith yn cael ei werthuso a'i fireinio'n barhaus.

**https://www.gov.wales/code-practice-delivery-autism-services**

## Gwerthuso'r Cod Ymarfer Awtistiaeth

Mewn partneriaeth â Phobl a Gwaith, mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi cefnogi gwerthusiad parhaus Llywodraeth Cymru o'r Cod Ymarfer Awtistiaeth. Nod y gwerthusiad aml-gam hwn yw asesu cydymffurfiaeth, nodi meysydd i'w gwella a deall profiadau pobl awtistig a'u teuluoedd.

**Cerrig Milltir Allweddol**:

- **Mawrth 2024:** Dechrau'r gwerthusiad yn ffurfiol.
- **30 Ebrill 2024:** Cyhoeddi **Rhan 1**, gan ganolbwyntio ar archwilio cydymffurfiaeth o safbwynt ymarferydd, gan gynnwys asesiadau gwaelodlin ar draws rhanbarthau.

- **2024–2025: Rhan 2** yn mynd rhagddi, gan ailedrych ar argymhellion o Ran 1 ac ehangu'r cwmpas i gynnwys:
  - Profiadau pobl awtistig, rhieni a gofalwyr.
  - Safbwyntiau ymarferwyr am gydymffurfiaeth ac effaith.
  - Asesu a yw argymhellion wedi cael eu gweithredu.
  - Nodi heriau a wynebir gan ddarparwyr gwasanaeth.
  - Edrych ar ofynion y Cod a lefelau cydymffurfio.
  - Dadansoddi newidiadau ymarfer y gellir eu priodoli i'r Cod.
  - Gwerthuso'r effaith ar oedolion a phlant awtistig a'u teuluoedd.

**Mentrau Casglu Data:**

Arolygon wedi'u datblygu a'u cyflwyno ar y cyd sy'n targedu:

- **Rhieni, gofalwyr a phobl awtistig** er mwyn asesu effaith y Cod.
- **Rheolwyr y gweithlu** er mwyn monitro cydymffurfiaeth a defnydd o adnoddau, fel cwblhau modiwlau e-ddysgu.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae cydweithio wedi bod yn ganolog i ddull y Tîm, gan sicrhau bod y Cod yn cael ei ddeall, ei weithredu a'i werthuso'n effeithiol ar draws Cymru.

Mae **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yng Nghymru yn gyrff statudol a sefydlwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Eu prif rôl yw annog darpariaeth ranbarthol strategol o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau integreiddio a chydweithio gwell, â'r nod o ddarparu cefnogaeth fwy di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r **Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth** yn rhoi dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu grwpiau strategol Awtistiaeth dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn llywio datblygiad gwasanaeth a goruchwylio gweithrediad y Cod.

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi gweithio'n agos gyda'r **Grwpiau Strategol Rhanbarthol** hyn i nodi meysydd cydymffurfio a darparu cyngor a chefnogaeth i fynd i'r afael ag argymhellion o gam cyntaf y gwerthusiad.

Yr egwyddorion allweddol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw hawl i wybodaeth a chyngor ac atal ac ymyrraeth gynnar. Dan y Ddeddf, mae gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu **Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** i gefnogi unigolion – y gwasanaethau hyn yw conglfaen dull ataliol y Ddeddf. Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yn rhoi dyletswyddau ar y gwasanaethau hyn i fod yn hygyrch i'r gymuned pobl awtistig a galluogi pobl awtistig yn eu bywydau bob dydd.

Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi bod yn cefnogi gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ddeall a gwella cydymffurfiaeth â'r Cod ymhellach. Mae'r Tîm wedi:

- Cydnabod bod **Timau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** yn hanfodol o ran cyflawni dyletswyddau'r Cod.
- Darparu gweminarau wedi'u targedu ar gyfer timau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Oedolion a Phlant.
- Cynnal digwyddiad wyneb i wyneb cenedlaethol yn **Llandrindod** (Gorffennaf 2024) mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, lle'r oedd **20 o 22 Awdurdod Lleol** wedi'u cynrychioli. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ac roedd yn gyfle i wasanaethau rwydweithio, dysgu gan ei gilydd ac arddangos enghreifftiau o arfer gorau.

**Estyn Allan Ehangach:**

- Ymgysylltiad estynedig gyda gwasanaethau 'drws ffrynt' ac ataliol fel T**euluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**, a **Dechrau'n Deg** i godi ymwybyddiaeth a darparu adnoddau wedi'u teilwra.

- Cynnal cyswllt parhaus â **grwpiau budd-ddeiliaid lleol** er mwyn rhannu diweddariadau gwerthuso a chasglu adborth.

**Cydweithio o ran Awdioleg:**

- Cyfrannu at weithdy Awdioleg ar-lein dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gan nodi niwrowahaniaeth fel maes blaenoriaeth ar gyfer adolygu.
- Cefnogi gwaith ffurfio grŵp tasg a gorffen er mwyn datblygu adnoddau ar addasiadau rhesymol ar gyfer cleifion niwrowahanol.

Bydd y cynllun peilot hwn yn llywio datblygiadau yn y dyfodol ar draws meysydd gwasanaeth eraill.

## Datblygu'r Gweithlu

Mae cefnogi parodrwydd y gweithlu a chydymffurfiaeth wedi parhau i fod yn ganolbwynt allweddol trwy gydol y flwyddyn. Mae’r Tîm wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi’r gwaith hwn, gan gynnwys:

- Parhau i gyflwyno adnoddau e-ddysgu a hyfforddiant sy’n alinio â’r Cod.
- Cefnogi rheolwyr y gweithlu trwy:
  - Gasglu a dadansoddi data cydymffurfiaeth.
  - Darparu adnoddau newydd iddynt.
  - Cynorthwyo gydag integreiddio platfform dysgu ar-lein.
  - Hybu cwblhau **tystysgrifau tîm** i ddangos dysg.

## Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth

Yn gyfochrog â’r Cod Awtistiaeth, mae’r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi cyfrannu at ddatblygiad cynnar **Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth** drafft, ehangach, gan sicrhau dilyniant ac aliniad ar draws fframweithiau. Mae’r Tîm wedi cydweithio â Gweithgor y Gweithlu i ehangu’r fframwaith hyfforddiant i gynnwys niwrowahaniaeth. Mae’r Tîm wedi gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn:

- Dylunio a chyflwyno’r **arolwg ymgynghori cychwynnol**.
- Adolygu canlyniadau’r arolwg ac alinio canlyniadau â themau presennol y Cod Awtistiaeth.
- Dechrau drafftio’r **ddogfen Cod Niwrowahaniaeth newydd**.

# Pennod 4: Hyfforddiant a Datblygu‘r Gweithlu

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur arall i’r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wrth iddynt godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo dealltwriaeth ac uwchsgilio’r gweithlu ar draws y system gyfan.

Mae datblygu **gweithlu medrus, galluog a hyderus** yn ddyletswydd allweddol yn y Cod ac yn flaenoriaeth yn y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth. Rôl y Tîm yw cefnogi’r gweithlu ehangach, yn ogystal â staff iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i fod yn niwrogynhwysol.

## Cymunedau Ymarfer

Mae sesiynau Cymuned Ymarfer y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn ceisio cefnogi gweithwyr proffesiynol i gael gwell dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a sut gallant addasu eu hymarfer i ddeall a chefnogi pobl niwrowahanol yn well.

Neges allweddol nifer o sesiynau Cymuned Ymarfer eleni oedd meddwl am niwrowahaniaeth trwy gamau bywyd a sut mae’r rhain yn effeithio ar bobl, er enghraifft - y menopos. Gall pobl gysylltu â gwasanaethau fel gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal eilaidd, iechyd cyffredinol ac iechyd meddwl, ar wahanol gamau bywyd. Mae hyn, a chyflyrau sy’n cyd-ddigwydd, yn gallu ei gwneud yn anoddach adnabod niwrowahaniaeth.

Mae **Emma Woodhouse** yn Seicolegydd Fforensig – darparodd sesiwn ddefnyddiol wedi’i thargedu at Glinigwyr ar y **gorgyffwrdd rhwng Awtistiaeth/ADHD**.

*“Roedd y siaradwr yn wych – roedd ganddi agwedd hyfryd a hamddenol ac roedd ei phersonoliaeth yn golygu bod pwnc diddorol yn troi’n fwy difyr fyth. Oherwydd bod nifer fawr ohonom yno, roeddwn i’n gwerthfawrogi’r ffaith fod ein microffonau a’n camerâu wedi’u diffodd. Roedd cyfraniadau’n cael eu croesawu’n fawr, ond roedd yn dal i ganiatáu i’r sesiwn redeg yn ddidrafferth, heb i neb siarad ar draws ei gilydd ac ati. Ar y cyfan, gwych”*

*“Roedd yn sesiwn wych, diolch am ei threfnu”*

*“Fe wnes i fwynhau’r ystyriaethau ymarferol yn enwedig, o ran asesu ASA ac ADHD a phwysigrwydd amlygu anghenion cefnogaeth”*




Bu'r Tîm yn gweithio gyda **Pippa Cottrell** o Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru, a **Ceri Reed** o Parent Voices – i gael safbwynt proffesiynol a safbwynt ar sail profiad go iawn o **Anhwylder Datblygu Iaith**.

*"Bues i yn nigwyddiad y bore ma, ac roedd yn hollol wych! Mor ymarferol, anogol, gan wneud i chi feddwl. Diolch"*

*"Digwyddiad Cymuned Ymarfer gwych. Roedd hi wir werth mynd iddo"*

***Cliciwch yma i weld sesiwn Cymuned Ymarfer Anhwylder Iaith Datblygiadol***

Darparodd **Dr Rachel Moseley** ac **Eunhee Kim** sesiwn yn edrych ar **ND a'r Menopos** yn cyd-ddigwydd. Cefnogi merched i gael eu deall gan weithwyr proffesiynol wrth iddynt brofi'r menopos – amlygu'r ffactorau risg.




*"Diolch yn fawr iawn am Gymuned Ymarfer ddoe. Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn a dysgais fwy am niwrowahaniaeth a'r menopos. Rwy'n teimlo bod llawer mwy i'w ddysgu"*

*"Diolch am drafod pwnc mor bwysig"*

***Cliciwch yma i weld sesiwn Cymuned Ymarfer ND a Menopos***

## Hyfforddi'r Gweithlu

Roedd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn falch iawn o weithio gyda nifer o wasanaethau camddefnyddio sylweddau eleni. Bu'r Tîm yn gweithio gyda **Barod Cymru** i ddarparu cyfres o sesiynau hyfforddiant i'w staff:

- Deall Niwroamrywiaeth gyda chanolbwynt ar Awtistiaeth
- Deall Niwroamrywiaeth gyda chanolbwynt ar ADHD

Cyn mynychu'r cwrs, roedd rhaid i staff **Barod** gwblhau'r modiwlau e-ddysgu. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar helpu ymarferwyr i ddeall pam mae pobl niwrowahanol yn defnyddio alcohol a sylweddau o bosibl, a sut gall ymarferwyr addasu eu hymarfer yn unol â hynny, gyda chanolbwynt penodol ar Awtistiaeth ac ADHD.

*"Mae'r sesiynau hyfforddiant ar Awtistiaeth ac ADHD wedi bod yn llawn gwybodaeth ac wedi rhoi llawer o syniadau i mi eu harchwilio. Diolch!"*

*"Roedd yr hyfforddiant hwn yn wych, roedd yn amlwg bod gan yr hyfforddwyr lawer iawn o wybodaeth ac angerdd. Roeddwn i'n gwerthfawrogi'r cyswllt â niwrowyddoniaeth a ffenestr oddefgarwch Porges – mwy o hyn, os gwelwch yn dda, oherwydd rwy'n credu bod y math hwn o waith yn hanfodol er mwyn cefnogi cleientiaid gyda seicoaddysg. Gyda rhestrau aros am asesiad ar gyfer llwybrau ND yn fwy na thair blynedd, rwy'n teimlo bod mwy o faich ar wasanaethau cymorth generig, felly mae unrhyw hyfforddiant sy'n ein cefnogi i addasu sgiliau 'cyfyngiant/lles' ar gyfer y gymuned ND i'w groesawu'n fawr"*

*"Hyfforddiant gwych – fedra i ddim ei argymell ddigon! Roeddwn i'n meddwl bod strwythur yr hyfforddiant yn dda, o ran cael slotiau egwyl 20 munud. Llwyddodd i wella sut yr oeddwn i'n ymgysylltu a chanolbwyntio, ac rwy'n bwriadu defnyddio'r dull hwn mewn cyfarfodydd a sesiynau hyfforddiant. Roedd y ddau hyfforddwr yn gredadwy iawn, ac roedd rhannu profiadau go iawn yn wirioneddol atgyfnerthu'r negeseuon pwysig iawn a rannwyd o ganlyniad"*

*"Graffig gwych, gwybodaeth anhygoel gan y siaradwyr, roeddwn i'n hoffi'r pleidleisiau a'r Gweithgaredd Gweithrediad Goruchwyliol"*

Bu'r Tîm yn darparu'r sesiynau hyn ar gyfer **Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro hefyd**.

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi ymgysylltu'n dda gyda **Phrifysgol Aberystwyth**. Dros y flwyddyn, mae'r Tîm wedi darparu:

- Sesiwn hyfforddiant ar gyfer y Dystysgrif Addysg Gofal Iechyd, Lefel 4. Darparodd hyn ymwybyddiaeth a gwybodaeth am niwrowahaniaeth i'r myfyrwyr hyn sydd eisoes yn gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Hyfforddiant Deall ND i fyfyrwyr Gradd Nyrsio BSc ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- Hyfforddiant Deall ND ar gyfer TAR Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymhwyster Addysgu).

Yn bwysig, mae'r Tîm wedi parhau i gefnogi **Capita**, gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn eu gweithlu. Ym mis Ebrill, darparodd y Tîm sesiwn hyfforddiant Awtistiaeth fel rhan o gyfres barhaus o sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd i Capita gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Dilynodd gweithlu Capita fodiwlau e-ddysgu Awtistiaeth 1 a 2 hefyd.

Mae tai yn faes allweddol arall lle mae'r Tîm yn gallu darparu cyngor, adnoddau a hyfforddiant. Darparodd y Tîm gyfres o sesiynau hyfforddiant i gymdeithas **Tai Clwyd Alyn** yng ngogledd Cymru ar Ddeall Niwroamrywiaeth ar gyfer Gweithwyr Tai. Galluogodd hyn i ymarferwyr tai addasu eu hymarfer i ddiwallu anghenion pobl niwrowahanol.

*"Diolch yn fawr am hyfforddiant ddoe. Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn a dysgais fwy am niwroamrywiaeth. Rwy'n teimlo bod llawer mwy i'w ddysgu. Bydd y sleidiau a'r fideos yn ddefnyddiol."*

*"Fe wnes i wir fwynhau'r sesiwn hyfforddiant o safbwynt proffesiynol a phersonol"*

*"Byddwn i wedi hoffi mwy o drafodaeth am 'osgoi galw patholegol' a ffyrdd o leihau'r sbardunau sy'n gysylltiedig â hyn."*

Bu'r Tîm yn darparu sesiynau peilot yng **Nghaerffili** hefyd ar gyfer yr **adran dai**.

*"Roedd gan yr hyfforddwr brofiad personol a phroffesiynol o ND ac roedd yn gallu dangos enghreifftiau i helpu ein dysgu"*

*"Roedd yr hyfforddiant yn ddiddorol iawn ac roedd yn rhoi cipolwg da ar y pwnc, yn bendant"*

*"Cwrs hyfryd, roedd yn amlygu'r anghenion nad ydynt yn weladwy bob amser, gan godi fy ymwybyddiaeth ac empathi"*

*"Roedd y cwrs yn well na'r disgwyl, ar bwnc cymhleth iawn"*

Darparodd y Tîm gyfres o sesiynau Deall Awtistiaeth i **Weithwyr yn y Gwasanaeth Prawf**. Mae hyn yn rhan o raglen dreigl lle bydd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn darparu hyfforddiant ddwywaith y flwyddyn i swyddogion prawf sydd newydd gymhwyso.

*"Roedd yr hyfforddwr yn barod i helpu ac yn llawn gwybodaeth ac roedd y cwrs yn ddefnyddiol iawn.'*

Darparwyd hyfforddiant i **Oedolion Priodol Adferiad** hefyd. Roedd Hyfforddiant Deall Niwroamrywiaeth Adferiad ar gyfer Oedolion Priodol yn cefnogi'r Oedolion hyn i adnabod, deall a chefnogi pobl niwrowahanol yn well yn y ddalfa.

Roedd adborth gan bawb a oedd yn bresennol yn gadarnhaol iawn a dywedodd cyfranogwyr bod eu gwybodaeth a'u hyder wedi cynyddu'n sylweddol  wrth gefnogi pobl niwrowahanol.

Mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau'n deall niwrowahaniaeth o oedran cynnar iawn a thrwy gydol plentyndod. Cafodd y Tîm gyfle i ddarparu dwy sesiwn gyda'r hwyr i'r **Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)**:

1. Deall Niwroamrywiaeth – Amgylcheddau Effeithiol
2. Deall Niwroamrywiaeth – Oedolion sy'n Galluogi

*"Diolch am sesiwn gyda'r hwyr ddiddorol a difyr iawn"*

*"Diolch eto am sesiwn mor ysbrydoledig"*

Mynychodd y Tîm **Ddigwyddiad Dathlu PACEY Cymru** ym mis Hydref hefyd.

*"Diolch yn fawr iawn am eich sesiwn yn ein digwyddiad dathlu ddydd Sadwrn. Roedd yn ysbrydoledig iawn ac roedd pawb ohonom a oedd yn bresennol wedi mwynhau"*

*"Roeddwn i am ddweud diolch yn fawr iawn am siarad yn ein digwyddiad ddydd Sadwrn. Rwy'n gwybod bod pawb wedi dysgu llawr ohonoa'i fod wedi gwneud i ni feddwl. Dywedodd rhywun wrtha i mai chi oedd y siaradwr gwadd gorau maen nhw wedi'i glywed"*

Darparodd y Tîm Hyfforddiant Deall Niwroamrywiaeth i **Dîm Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig Powys** – a fydd yn rhan o ddarn o waith parhaus gan gydweithio â'r Swyddog Datblygu Gweithlu ar gyfer Safonau Hyfforddiant Addysg ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Gwaith Chwarae (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Prosiect peilot yw hwn a gaiff ei ymestyn i Wasanaethau Ieuenctid Casnewydd gan archwilio'r posibilrwydd o ddull cenedlaethol.

Mae meddygon teulu yn chwarae rôl hanfodol wrth adnabod niwrowahaniaeth a deall effaith amrywiaeth o gyflyrau corfforol a meddyliol sy'n cyd-ddigwydd. Roedd yn fraint i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol fynychu **Diwrnod Astudio Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn Ysbyty Athrofaol Cymru** er mwyn codi proffil ac archwilio cyflyrau iechyd corfforol sy'n cyd-ddigwydd a niwrowahaniaeth gyda nhw. Bu'r Tîm yn gweithio gyda Meddygon Teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd i ddarparu hyfforddiant Deall Niwroamrywiaeth.

*"Diolch yn fawr iawn am eich cyfraniad i'r Diwrnod Astudio i Feddygon Teulu. Roedd y diwrnod yn sesiwn addysgol fwy cynhwysfawr o ganlyniad! Cawsom nifer o fewnwelediadau newydd i'ch gwaith yn y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Roedd angen i ni fod yn fwy ymwybodol o'r amrywiaeth o wasanaethau am ddim sydd ar gael i gleifion a'u gofalwyr. Bydd adborth y Meddygon Teulu dan hyfforddiant yn dweud yr un peth."*

Darparodd y Tîm sesiwn wybodaeth am ddeall niwrowahaniaeth i adran gofrestru **Arolygiaeth Gofal Cymru** (AGC).

*"Diolch yn fawr am ddod! Roedd llawer iawn o adborth cadarnhaol ar ôl eich sesiwn am y cynnwys, a'ch sgiliau fel siaradwr difyr - mae gennych chi ddawn arbennig! Rydym yn gwerthfawrogi'r adnoddau'n fawr."*

Mae'r Tîm wedi darparu cyfres o sesiynau ar gyfer **Gofal Cymdeithasol Cymru** gan gynnwys gweithdy ar Gymwysterau a Safonau o ran Niwroamrywiaeth, sesiwn Deall Niwroamrywiaeth ar Gefnogi dysgwyr GCC Niwroamrywiol, Cefnogi Dysgwyr Niwroamrywiol i Gael Mynediad at Gymwysterau Gofal Cymdeithasol, a Gweithdy Niwroamrywiaeth ar gyfer Darparwyr Dysgu, a hefyd sesiwn ar Gefnogi Gweithwyr Cymdeithasol Niwroamrywiol.

*"Diolch, roedd y cwrs yn cefnogi fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth a'm helpu i ddod i delerau â fy ADHD fy hun – cwrs gwych!"*

*"Roeddwn i am ddweud diolch am drefnu a darparu'r sesiwn. Rwyf eisoes wedi rhannu manylion y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol â chydweithwyr mewn ambell Awdurdod Lleol ac â sefydliad maethu. Roedd yn faes dysgu cadarnhaol iawn i mi, felly diolch am y ffordd y cafodd ei ddarparu. Fel rhywun sy'n darparu hyfforddiant a hwyluso, roedd yn braf iawn mwynhau a dysgu gymaint."*

Weithiau, gofynnir i'r Tîm ddarparu hyfforddiant pwrpasol i wahanol sefydliadau, ac eleni, darparwyd sesiynau Deall Niwroamrywiaeth i **Gyngor Celfyddydau Cymru**.

Gyda sesiynau pwrpasol, mae gofyn i'r sefydliadau ddilyn y modiwlau e-ddysgu – Awtistiaeth modiwl 1 a 2, modiwl e-ddysgu ADHD a modiwl e-ddysgu Tourettes a Tics – cyn yr hyfforddiant. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob cyfranogwr ddealltwriaeth eang er mwyn cynyddu'r cyfle i ddysgu o sesiwn bwrpasol.

*"Diolch i chi'ch dau a llongyfarchiadau am sesiwn wych. Roedd yn gadarnhaol iawn, yn llawn gwybodaeth a dealltwriaeth a charedigrwydd, ac adnoddau hynod o ddefnyddiol. Ond, yn fwyaf pwysig, roeddech chi'ch dau mor sensitif ac agored. Mae'n golygu llawer iawn i mi bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei rannu ar draws Cymru."*

*"Rwy'n teimlo ei fod wedi rhoi hyder i mi fod y ffordd yr wyf i'n rhyngweithio gydag unigolion yn gywir, ond hefyd bod angen dysgu ac addasu'n barhaus, ac nad oes gan yr un unigolyn yr un gofynion ac anghenion."*

## Fforymau Cydlynwyr ADY

Mae cefnogaeth ar gyfer Cydlynwyr ADY wedi parhau eleni ac wedi'i groesawu. Bu'r Tîm yn mynychu **fforymau Cydlynwyr ADY ledled Cymru** i godi ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth a hybu gwell dealltwriaeth o niwrowahaniaeth. Roedd y fforymau hyn yn gyfle i arddangos gwaith y Tîm hefyd a'r adnoddau sydd ar gael. Bu'r Tîm mewn fforymau Cydlynwyr ADY yng Ngheredigion, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Phowys.

## Digwyddiadau

Roedd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn falch o fynychu'r digwyddiadau canlynol er mwyn rhannu gwybodaeth am y Tîm a'i adnoddau. Diolch i'r trefnwyr a ddarparodd gyfle i siarad yn rhai o'r digwyddiadau hyn.

- **Hydref 2024** – Cynhadledd Canopi (sefydliad sy'n cefnogi Iechyd Meddwl) Canopi
- **Hydref 2024** – Gofal Maeth Cymru – darparwyd gweithdy ar Ddeall Niwroamrywiaeth a Gweithrediad Goruchwyliol
- **Hydref 2024** – Darparwyd gweithdy ar Ddeall Niwroamrywiaeth a Gweithrediad Goruchwyliol yng Nghynhadledd End Youth Homelessness Cymru yn Llandrindod
- **Ionawr 2025** – Cynhadledd Cydlynwyr ADY yng Nghaerdydd – rhannu adnoddau/gwybodaeth
- **Chwefror 2025** – Cynhadledd Maethu Cymru yn Sir Benfro – rhannu adnoddau/ gwybodaeth

# Pennod 5: Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig

Mae'r bennod hon yn darparu data allweddol lefel uchel gan yr holl Wasanaethau Awtistiaeth Integredig yng Nghymru, gan adlewyrchu ystod eu gwaith ac ymroddiad y staff sy'n gweithredu gydag adnoddau cyfyngedig.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae 2024/25 wedi parhau i fod yn heriol ar gyfer y saith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig o safbwynt galw a chapasiti, fel y nodir yn adroddiad Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Penawdau Data Allweddol o 2024/25:**

- Gwnaed **7,094** o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth.
- Roedd **62%** o'r rhain yn hunan-atgyfeiriadau.
- Roedd **72%** o'r atgyfeiriadau'n ceisio asesiadau awtistiaeth diagnostig.
- Roedd **28%** yn gofyn am gefnogaeth.
- Derbyniodd **1,703** o oedolion asesiad diagnostig
- Derbyniodd **1,215** o oedolion ddiagnosis o awtistiaeth
  - Gan olygu bod **71%** o'r rhai a aseswyd wedi derbyn diagnosis o awtistiaeth.
- **542** o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr gyda 95% ohonynt yn hunan-atgyfeiriadau.
- Roedd **97%** o'r atgyfeiriadau ar gyfer rhieni / gofalwyr oedolion awtistig a 3% ar gyfer rhieni / gofalwyr plant awtistig.
- **6,587** cysylltiad â gweithwyr proffesiynol.
- **3,263** cysylltiad newydd gyda gweithwyr proffesiynol.
  - **53%** o'r cysylltiadau gan weithwyr iechyd proffesiynol, **30%** yn weithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol a **3%** yn weithwyr proffesiynol o'r sector gwirfoddol.

Mae'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ôl-ddiagnostig, gan gynnwys cefnogaeth unigol am gyfnod penodol.  Mae'r Seren Canlyniadau yn declyn mesur canlyniadau a ddefnyddir gan Wasanaethau Awtistiaeth Integredig wrth weithio gyda phobl ar sail un i un.  Yn 2024/25:

- Dangosodd 98% o'r unigolion ganlyniadau gwell mewn o leiaf un maes
- Dangosodd 90% ganlyniadau gwell mewn o leiaf dau faes
- Dangosodd 83% ganlyniadau gwell mewn o leiaf tri maes

Mae'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn darparu ystod o waith **grŵp ôl-ddiagnostig** i gefnogi pobl awtistig. Yn 2024/25, mynychodd **1,548** o bobl sesiynau grŵp.

*"Pobl hyfryd iawn.  Yn ateb cwestiynau bob amser ac yn hynod amyneddgar.  Yn egluro pethau, testunau, emosiynau'n dda, mewn ffordd rwy'n ei ddeall. Eithaf trylwyr a manwl ac ati.  Pobl wych ac yn gwneud i mi deimlo fod gennyf lais".*

Ar gyfer Adroddiad Data llawn Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig 2024/25, gweler **Atodiad 1**.

## Practice Exchanges

Mae Cyfnewid Ymarfer yn parhau i fod yn gonglfaen dysgu ar y cyd a chefnogaeth i gymheiriaid ar draws y saith o dimau Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.  Mae'r sesiynau hyn yn meithrin dull unedig o ddarparu gwasanaethau a darparu llwyfan i rannu cryfderau, mynd i'r afael â heriau, a hyrwyddo arloesi.  Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi parhau i hwyluso'r sesiynau hyn, gan gasglu adborth gan dimau Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig i lunio meysydd i ganolbwyntio arnynt.

**Sesiynau Cyfnewid Ymarfer a gynhaliwyd yn 2024/25:**

- *Blinder Awtistig*: Archwilio cydnabyddiaeth, atal a strategaethau cefnogi.
- *Cyfweld Ysgogol*: Gwella technegau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae'r sesiynau cyfnewid hyn wedi atgyfnerthu perthnasau rhwng y timau a chyfrannu at strategaeth genedlaethol sy'n fwy cydlynol ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth.

## Hyfforddiant

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn parhau i flaenoriaethu **datblygu'r gweithlu**, gan sicrhau bod gan staff Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig fynediad at gyfleoedd hyfforddiant perthnasol ac o ansawdd uchel. Yn 2024/25, comisiynwyd a darparwyd sawl menter hyfforddiant allweddol i wella sgiliau a chysondeb cefnogaeth ledled Cymru.

**Uchafbwyntiau'r Hyfforddiant:**

- **Hyfforddiant Diagnostig - ADOS ac ACIA**: Wedi'i ddarparu mewn cydweithrediad gyda Phrifysgol Newcastle. Mae'r teclyn ACIA yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, gan nodi carreg filltir allweddol fel y **teclyn diagnostig dwyieithog cyntaf ar gyfer oedolion**.
- **Hyfforddiant Hyfforddi Gweithrediad Goruchwyliol MindSparks**: Lansiwyd cwrs peilot chwe wythnos ym mis Mawrth 2025, ar gyfer Gweithwyr Cefnogi. Datblygwyd y fenter mewn ymateb i fylchau hyfforddiant a nodwyd a bydd yn cael ei werthuso yn 2025/26.

## Cyfarfodydd Chwarterol Rheolwyr Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig

Mae Cyfarfodydd Chwarterol Arweinwyr, wedi'u cydlynu a'u hwyluso gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, wedi parhau i fod yn elfen allweddol i gynnal cysondeb gweithredol ac aliniad strategol ar draws yr holl dimau Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu fforwm ar gyfer cynllunio busnes, rhannu arferion gorau, a mynd i'r afael â'r heriau sy'n dod i'r amlwg ar y cyd.

Mae'r cyfarfodydd wedi cefnogi:

- Darpariaeth gwasanaethau cyson ledled Cymru.
- Cynllunio strategol a datrys problemau
- Atgyfnerthu cyfathrebu rhwng timau a'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol

Mae gwaith y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn 2024/25 yn adlewyrchu ymrwymiad llwyr i wella canlyniadau ar gyfer oedolion awtistig yng Nghymru. Er y pwysau sylweddol, mae timau Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig wedi arddangos gwydnwch, arloesedd, ac ymrwymiad diwyro i gefnogi pobl awtistig ledled Cymru.

# Pennod 6: Addysg

## Dysgu am Awtistiaeth

Dysgu am Awtistiaeth
Learning about Autism

Wrth i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ddiweddaru'r hyn mae'n ei gynnig, mae wedi parhau i hyrwyddo'r **Rhaglen Dysgu am Awtistiaeth** i ddarparwyr addysg o safleoedd y blynyddoedd cynnar i ysgolion uwchradd.  Fel rhan o'r drefn achredu, eleni mae **4,197 o ddisgyblion** ychwanegol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi ymgysylltu â'r llyfr Archarwr.




[Cliciwch yma i weld y llyfr Archarwyr Awtistiaeth]



[Dysgwch fwy am gynllun y Blynyddoedd Cynnar yma]

Mae **2,084 o staff addysgu a chefnogi dysgu o ysgolion cynradd** wedi ymgysylltu â'r rhaglenni, ac mae **3,141 o staff addysgu a chefnogi dysgu o ysgolion uwchradd** wedi ymgysylltu â'r rhaglen Dysgu am Awtistiaeth.

Dyma beth ddywedodd rhai ohonyn nhw wrthym ni:

*"Mae rhoi hyfforddiant awtistiaeth i'r holl staff a disgyblion yn golygu bod llawer gwell cefnogaeth ar gael i fyfyrwyr ar y sbectrwm. Mae'n creu amgylchedd mwy cynhwysol lle mae pawb yn deall a gwerthfawrogi anghenion dysgu amrywiol."*

*"Mae'r rhaglen Dysgu am Awtistiaeth wedi rhoi hwb mawr i ddealltwriaeth ein hysgol ni o awtistiaeth! Mae wedi rhoi syniad gwerthfawr i'r staff a'r myfyrwyr o brofiadau ac anghenion pobl awtistig. Mae rhannu'r wybodaeth â phawb wedi creu amgylchedd mwy cynhwysol ac annog pobl i ddangos empathi a chyfathrebu'n effeithiol. Yn sgil hynny, rydyn ni'n gweld bod ein myfyrwyr yn rhyngweithio'n well a bod gwell cefnogaeth ar gael i bob un ohonynt, sy'n gwneud cymuned ein hysgol yn gryfach ac yn fwy cydgysylltiedig."*

*"Mae'r rhaglen hyfforddiant awtistiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar ein disgyblion. Nid yn unig ei bod wedi hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y myfyrwyr, ond mae hefyd wedi gwneud i gymuned yr ysgol deimlo'n fwy croesawgar a chefnogol. Rydym wedi sylwi ar fyfyrwyr yn rhyngweithio'n well â'i gilydd ac yn dangos mwy o empathi, a bod yma amgylchedd mwy cynhwysol lle mae'r holl fyfyrwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hynny wedi bod yn hwb i les a chyfranogiad ein disgyblion awtistig yn gyffredinol, sy'n eu galluogi i ffynnu'n gymdeithasol ac yn academaidd."*

*"Rydym yn argymell fod yr holl rieni'n mynd i'ch gwefan os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am ASA neu'n dymuno cael cyngor ac arweiniad. Mae'r staff wedi newid amgylchedd y dosbarthiadau ac yn teimlo fod ganddynt ddealltwriaeth llawer gwell o ASA a sut i ddarparu cefnogaeth. Mae gan bob disgybl ag ASA broffil un tudalen sy'n egluro strategaethau i staff llanw eu cefnogi."*

*"Ers i'r staff wneud yr hyfforddiant a'r rhaglen, rydw i fel Cydlynydd ADY wedi cael mwy o e-byst yn holi am bethau maent wedi sylwi arnynt. Pan mae pobl yn sylwi ar arwyddion felly, gofynnwn i'r tîm ASA ymyrryd yn gynnar a rhoi'r gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar y disgybl. Rydym wrthi'n datblygu cornel synhwyraidd yn ein canolfan gyfoethogi i fyfyrwyr fel bod gan ddisgyblion rywle tawel i fynd iddo pan mae pethau'n mynd yn ormod iddynt."*

*Rydym wedi creu darpariaeth gyffredinol fwy cynhwysol ar gyfer y dosbarth cyfan, heb roi pwyslais ar unrhyw blant yn neilltuol. Mae gennym amserlenni gweledol ymhob dosbarth ac yn gwneud cryn dipyn o waith nawr a nesaf, yn ogystal â rhoi cyfle i blant gael seibiant i symud o gwmpas yn ystod y gwersi."*

*''Mae'r staff yn llawer mwyn ymwybodol ac mae'r plant hefyd yn gallu helpu ei gilydd a chadw llygad am arwyddion bod eu cyfoedion yn cael trafferth."*

*"Mae'r rhaglen Dysgu am Awtistiaeth wedi dyfnhau dealltwriaeth y staff o'r amryw ffyrdd y gall awtistiaeth disgyblion ddod i'r golwg, a hybu eu gallu i adnabod yr arwyddion ac ymateb iddynt yn effeithiol. Mae'r staff bellach yn gwerthfawrogi'n well yr heriau y mae disgyblion awtistig yn eu hwynebu, ac yn fwy rhagweithiol wrth greu amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol sydd wedi'i addasu yn ôl eu hanghenion. Mae'r hyfforddiant ac adnoddau ar y wefan wedi rhoi offer a strategaethau ymarferol i staff, gan gynnwys cymhorthion gweledol, dulliau o reoli sensitifrwydd synhwyraidd a chyfathrebu'n glir, a defnyddir y rhain gydol yr ysgol er budd disgyblion awtistig."*

*"Rydym wedi paratoi ystafelloedd synhwyraidd, corneli/mannau bwyta tawel, amserlenni gweledol, teganau ffidlan a chlustffonau fel y bo'r angen. Wrth i'r holl aelodau o staff gydweithio, credwn ein bod yn bodloni anghenion y plant dan sylw'n arbennig o dda. Mae cyfathrebu bob dydd â'r rhieni wedi bod yn fuddiol hefyd."*

*"Mae'r oedolion a'r plant fel ei gilydd wedi dod yn fwy ymwybodol o'r arwyddion i gadw golwg amdanynt a sut y gallwn gynnig cymorth a chefnogaeth pan mae angen."*

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi sefydlu **Gweithgor Addysg** i adolygu a diweddaru'r adnoddau addysgol sydd ar gael ar y wefan. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o dimau polisi ADY a Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru, staff addysgu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, Arweinwyr Awtistiaeth, Seicolegwyr Addysg a Phlant, Cydlynwyr ADY, Arbenigwyr Perfformiad ADY, Athrawon Arbenigol Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a phobl â phrofiad bywyd.

Mae gwella mynediad at adnoddau addysgol drwy gyfrwng y **Gymraeg** wedi bod yn faes gwaith pwysig eleni. Bu'r tîm yn gweithio gyda **Trystan Williams, Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (y Gymraeg) o Lywodraeth Cymru**, sy'n goruchwylio gwaith penodol ar y cynnig Cymraeg ar gyfer ADY. Gweithiodd aelodau'r Tîm gyda Trystan i gynhyrchu podlediadau, diweddaru adnoddau a mynychu cynadleddau yn Llandudno a Chaerdydd ym mis Mawrth 2025.


***Mae dolen i'r podlediad i'w chael yma***

Mae'r Tîm wedi parhau i fynychu **fforymau i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol** ym mhob cwr o Gymru. Mae'r staff sydd wedi mynychu'r fforymau hyn wedi ymgysylltu'n dda ac maent yn cael cyfle gwych i rwydweithio, rhannu gwybodaeth am adnoddau'r Tîm a deall beth arall allai fod yn ddefnyddiol yn y sector.

Mae'r **sesiynau Cymuned Ymarfer** sy'n canolbwyntio ar addysg gan Catrina Lowri a Marjorie Thomas yn dal yn boblogaidd. Cynhelir y rhain ar wefan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol a gall gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr eu gweld. Maen nhw'n cynnwys pynciau fel:

- Cefnogi Niwroamrywiaeth yn y Dosbarth
- Awtistiaeth a'r 'Dyses'
- Cefnogi Dysgwyr â Dyslecsia
- Galw Treiddiol am Ymreolaeth
- Atal Gwaharddiad a Niwrowahaniaeth
- Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn

Eleni, roedd y sesiynau cynghori i rieni a gofalwyr yn cynnwys **cyngor yn seiliedig ar addysg i rieni a gofalwyr**. Ymateb oedd hyn i'r anghenion a'r pryderon a nodwyd gan rieni a gofalwyr am bwysigrwydd addysg a sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol yn bodloni anghenion penodol eu plant a phobl ifanc.




Cyflwynodd Catrina Lowri, Neuroteachers sesiwn ar ba gefnogaeth ddylai eich plentyn niwrowahanol ei ddisgwyl yn yr ysgol.

***Cliciwch yma i weld 'Pa gefnogaeth all eich plentyn niwrowahanol ei disgwyl yn yr ysgol'***

Cyflwynodd Ceri Reed, Lleisiau Rhieni yng Nghymru sesiwn hefyd ar eirioli dros eich plentyn neu unigolyn ifanc.

***Cliciwch yma i weld 'Eiriol dros eich plentyn neu berson ifanc'***



# Pennod 7: Cymorth i Deuluoedd

Mae yna gynnydd parhaus wedi bod mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus a chydnabyddiaeth o niwrowahaniaeth, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau ar gyfer asesiad diagnostig ar draws gwasanaethau.

Gydag amseroedd aros hir, a theuluoedd yn aml yn dweud eu bod yn cael trafferth cael at wybodaeth a chefnogaeth tra'n aros am asesiad diagnostig, mae yna risg y bydd yna gynnydd mewn angen. I fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn gweithio o fewn egwyddorion **Rhaglen Wella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru**. Mae'r tîm yn parhau yn ymrwymedig i **ddull a arweinir gan anghenion**, gan sicrhau nad yw cefnogaeth yn ddibynnol ar labeli diagnostig.

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi parhau i flaenoriaethu hygyrchedd a chynhwysiant drwy gynnig gwybodaeth, adnoddau ac arweiniad o ansawdd uchel i unrhyw un all elwa, p'un ai a oes ganddynt ddiagnosis ffurfiol ai peidio. Mae'r holl adnoddau yn rhad ac am ddim i bawb.

Eleni mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi chwarae rhan ganolog mewn llunio a chyflawni ystod eang o **fentrau sy'n canolbwyntio ar y teulu**, gan gydweithio yn agos gyda rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

## Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr

Mae Grwpiau Ymgynghorol, wedi eu hwyluso a'u cefnogi gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, wedi bod yn allweddol o ran datblygu mentrau allweddol. Mae'r grwpiau hyn yn ymgorffori ethos o gyd-gynhyrchu, gan ddod â theuluoedd niwrowahanol a gweithwyr proffesiynol ynghyd i gyd-greu adnoddau sy'n creu effaith. Rydym yn diolch i'r 60 a mwy o rieni a gofalwyr sydd wedi cymryd rhan yn y Grwpiau Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr eleni. Mae'r deunyddiau o ganlyniad yn hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach ac yn cynnig **strategaethau ymarferol** ar gyfer cefnogi plant niwrowahanol mewn cyd-destunau bob dydd.

Rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2024, fe ymgymrodd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol â phroses o adolygu adnoddau presennol i Rieni a Gofalwyr, gan barhau â'r broses barhaus o drawsnewid o ran niwrowahaniaeth. Yn dilyn argymhellion gan y grŵp ymgynghorol, fe ail-ddyluniodd ac adrefnodd y Tîm yr adnoddau yn feysydd pwnc ar y wefan. Cynhaliwyd cyfres o wyth o grwpiau llai ar gyfer pob pwnc. Arweiniodd y broses hon at gyfres o daflenni **Awgrymiadau Gwych** ar ystod o bynciau i gyd-fynd â'r **Taflenni Cyngor** mwy. Hefyd cafodd dolenni at recordiadau'r Sesiynau Cyngor Rhithiol Rhieni a Gofalwyr eu hychwanegu at bob un o'r tudalennau pwnc.

Mae **gwella'r wefan** fel hyn, lle mae gwybodaeth yn cael ei threfnu yn bynciau a gaiff eu diffinio'n eglur, yn gwella hygyrchedd a phrofiad y defnyddiwr yn sylweddol. Gall rhieni a gofalwyr nawr lywio drwy'r safle yn haws a lleoli'r wybodaeth maent ei hangen. Dyma'r ystod lawn o bynciau:

- Cefnogi Brodyr a Chwiorydd
- Cwsg
- Bwyd, Deiet a Bwyta
- Asesu
- Defnyddio'r Toiled
- Ysgol
- Ymddygiad Gofidus / Heriol
- Cynllunio a Blaenoriaethu

***Cliciwch yma i gael mynediad at y rhestr o bynciau***.

## Sesiynau Cyngor Rhithiol i Rieni a Gofalwyr

Mae'r rhaglen amrywiol o **sesiynau cyngor rhithiol** wedi parhau, gan ymdrin ag ystod eang o bynciau sy'n berthnasol i rieni a gofalwyr plant niwrowahanol. Mae'r sesiynau hyn wedi cynnwys arbenigwyr o fri ac ymarferwyr, gan gyfuno mewnwelediad proffesiynol gyda safbwyntiau sy'n canolbwyntio ar rieni. Caiff y sesiynau hyn eu recordio a'u cynnal ar wefan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn dilyn y sesiwn fyw.

***Cliciwch yma i gael mynediad i'r Sesiynau Cyngor Rhithwir i Rieni a Gofalwyr***

**Uchafbwyntiau'r Sesiynau:**

Ebrill 2024 **Blinder Awtistig a Chyfrifeg Lefelau Egni: Canllaw i Rieni -** Yr Athro Tony Attwood

Ebrill 2024 **Eirioli dros eich Plentyn** - Ceri Reed

Mai 2024 **Cefnogi Brodyr a Chwiorydd** - Emma Durman

Mehefin 2024 **Rheoli Gorbryder** - Melissa Hutchings

Gorffennaf 2024 **Rheoli Pyliau o Golli Rheolaeth** - Canolbwynt Cefnogi Ymddygiad

September 2024 **Cefnogaeth i'ch Plentyn Niwrowahanol yn yr ysgol** - Catrina Lowri

November 2024 **Cadw'n Ddiogel Ar-lein** - Emma Durman

December 2024 **PDA: Canllaw i Rieni** - Catrina Lowri a Lucy Johnson

February 2025 **Stori Rhiant Niwrowahanol** - Lisa Davies

March 2025 **Prosesu Synhwyraidd** - Helpu Plant i Ddisgleirio

Cafodd pob sesiwn dderbyniad gwresog, gyda chyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfuniad o gyngor arbenigol a mewnwelediadau perthnasol a arweinir gan y rhieni. Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn parhau i gasglu adborth i lywio sesiynau yn y dyfodol ac i sicrhau perthnasedd parhaus i anghenion teuluoedd.

*"Roedd y sesiwn yn fewnwelediad gwych – defnyddiol iawn ac o gymorth mawr."*

*"Roedd yn hynod o werthfawr – fe wnes i ddysgu llawer ac roeddwn eisiau iddo barhau."*

*"Gwych! Ac mae'r ffaith ein bod yn cael recordiad i fynd trwyddo wrth ein pwysau o gymorth mawr."*

*"Roedd yn llawn gwybodaeth ac roedd yna awyrgylch cyfeillgar."*

*"Roedd yn ymdrin â phopeth roeddwn angen ei wybod."*

*"Roedd y profiadau bywyd yn werthfawr iawn."*

*"Roedd yn gydbwysedd perffaith o wybodaeth, egwyl ac yna sesiwn Holi ac Ateb"*

## Trafodaethau Sain Rhieni Niwrowahanol

Un o ddatblygiadau hynod y flwyddyn fu lansio'r **trafodaethau sain Rhieni Niwrowahanol**. Mae'r trafodaethau hyn yn darparu llwyfan pwerus i rieni niwrowahanol rannu eu mewnwelediadau a'u profiadau bywyd, gan ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys chwalu mythau a rheoli anghenion amrywiol. Drwy ehangu'r lleisiau hyn, mae'r sesiynau yn cynnig cipolwg unigryw ar ddeinameg teuluoedd, gan feithrin empathi a hybu strategaethau cefnogi.

***Cliciwch yma i gael mynediad at y Trafodaethau Rhieni ND***

## Gweithio gyda Gwasanaethau 'Drws Ffrynt'

Un o'r egwyddorion sydd wedi eu gwreiddio yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth a'r Rhaglen Wella Niwrowahaniaeth, yw'r ddyletswydd i alluogi pobl i gael at **wybodaeth amserol, cyngor a chymorth ac ymyrraeth gynnar**.

Mae gwasanaethau gweithredol 'drws ffrynt' sy'n gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i deuluoedd yn allweddol i fodloni anghenion fel maent yn codi. Eleni mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi gweithio'n agos gydag ystod o'r gwasanaethau hyn i uwchsgilio staff allweddol sy'n darparu cefnogaeth rheng flaen i deuluoedd yn ddyddiol, gan hyrwyddo'r weledigaeth o **weithlu niwrogynhwysol**, cymwys a hyderus yn cefnogi teuluoedd.

Ym mis **Gorffennaf 2024**, fe gynhaliodd y Tîm weithdy cenedlaethol gydag awdurdodau lleol o bob cwr o Gymru **Gwybodaeth, Cyngor a Gwasanaethau Cymorth** gan rannu arferion da, archwilio eu dyletswyddau a dangos sut y gall adnoddau'r Tîm gefnogi eu gwaith.

Ym mis **Medi 2024**, fe fynychodd y Tîm **Gynhadledd Maethu Cymru** yng Nghaerdydd a gwneud cyflwyniad yn amlygu gwaith y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol.

Ym mis **Tachwedd 2024**, fe gyflwynodd y Tîm waith y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol mewn cyfres o ddigwyddiadau **Braenaru Powys**.

Ym mis **Ionawr 2025**, fe gychwynnodd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ar brosiect yn darparu sesiynau gwybodaeth i dimau **Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg** yn yr holl awdurdodau lleol ar draws Cymru. Roedd diben y prosiect hwn yn driphlyg: i amlygu adnoddau perthnasol ar wefan Niwrowahaniaeth Cymru y gallai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd ei ganfod yn ddefnyddiol wrth gefnogi teuluoedd; i amlinellu rhai o'r dyletswyddau o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Darparu Gwasanaethau Awtistiaeth; ac i nodi'r modiwlau e-ddysgu a all helpu gwasanaethau i fodloni'r dyletswyddau hyn.

Bydd y gwaith hwn yn parhau i'r flwyddyn nesaf wrth i'r Tîm ddysgu o'r ymgysylltiad hwn ac ail lunio adnoddau i becynnau gwaith defnyddiol y gall staff gweithredol eu defnyddio yn eu hymarfer dyddiol. Bydd y Tîm yn treialu'r adnoddau hyn i gychwyn mewn un ardal awdurdod lleol cyn eu cyflwyno ar draws Cymru.

## Datblygu Adnoddau ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol

Ym mis **Mawrth 2025**, mewn cydweithrediad â rhieni a gofalwyr niwrowahanol, mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi bod yn arwain datblygu cyfres o adnoddau wedi eu teilwra ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd niwrowahanol. Nod yr adnoddau hyn yw i gefnogi gweithwyr proffesiynol i wella eu dealltwriaeth o rieni niwrowahanol. Bydd yr adnoddau hyn yn adlewyrchu ymagwedd a arweinir gan y rhieni, gan sicrhau fod arweiniad wedi ei wreiddio mewn profiadau bywyd go iawn ac yn cynnig strategaethau y mae modd eu gweithredu ar gyfer arfer cynhwysol.

# Pennod 8: Newid i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol

## Blwyddyn Dyngedfennol: 2024–2025

Roedd 2024/25 yn flwyddyn dyngedfennol i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, **wrth iddo newid yn ffurfiol o fod yn Dîm Awtistiaeth Cenedlaethol er mwyn cyd-fynd ag agenda Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Wella Niwrowahaniaeth**. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu ymagwedd ehangach a mwy cynhwysol at niwrowahaniaeth, gan gynnwys nid yn unig awtistiaeth ond hefyd ADHD, Tourette's a chyflyrau gwingo a phroffiliau niwrowahanol eraill.

Bu'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn gweithio'n galed i ddechrau datblygu amrywiaeth o adnoddau a hyfforddiant yn cynnwys y ddealltwriaeth ehangach hon o niwrowahaniaeth er mwyn ehangu'r wybodaeth ar draws sectorau.

## Digwyddiad Ail-lansio: Dathlu Cynnydd, Croesawu Newid

Ar **31 Hydref 2024,** cynhaliodd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol Ddigwyddiad Ail-lansio arloesol i ddathlu'r newid hwn a dangos hanes y daith o waith awtistiaeth penodol i raglen ehangach niwrowahaniaeth. Daeth pobl niwrowahanol, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau o bob cwr o Gymru at ei gilydd yn y digwyddiad.

**Highlights included**:

- Neges agoriadol bwerus gan y Gweinidog Sarah Murphy.
- Sgyrsiau ysbrydoledig gan yr Athro Anita Thapar, Sian Lewis, Ewan Richards, Dan Jones, Emma Durman a Lisa Heledd-Jones.
- Rhaglen niwroamrywiol lawn dan gadeiryddiaeth Arweinydd Awtistiaeth Caerdydd a'r Fro, Keith Ingram gyda chyfraniadau gan Wendy Thomas, Pennaeth Gwasanaeth a Donna Sharland, Swyddog Pontio yn y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol.
- Cafwyd cynrychiolaeth o wasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg a'r Gwasanaethau Brys.

Roedd y digwyddiad yn cydnabod cynnydd ond hefyd yn ymrwymiad i gydweithio cynhwysol a chyd-gynhyrchu â chymunedau niwrowahanol a budd-ddeiliaid ehangach yn y dyfodol.



## Lansio'r Wefan: NeurodivergenceWales.org

Fel rhan o'r newid o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, lansiwyd y wefan NeurodivergenceWales.org ym mis Hydref 2024. Mae'r wefan yn adlewyrchu'r newid tuag at gwmpas niwrowahaniaeth ehangach ac mae wedi cael ei hail-fformatio er mwyn ei gwneud yn haws ei defnyddio.

***Cliciwch yma i gael mynediad at wefan Niwrowahaniaeth Cymru***

Mae rhai ychwanegiadau newydd i'r wefan ar ei newydd wedd y cynnwys **modiwl e-ddysgu ADHD a Ffilm Wybodaeth ADHD**. Mae'r ddau'n adlewyrchu ymrwymiad i ehangu gwybodaeth ac adnoddau y tu hwnt i awtistiaeth.

***Cliciwch yma i gael mynediad at y modiwl Deall ADHD***

***Cliciwch yma i weld y ffilm 'Beth yw ADHD?'.***

## Grwpiau Ymgynghorol: Cyd-gynhyrchu ar Waith

Mae grwpiau ymgynghorol y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi cael eu hailstrwythuro i adlewyrchu'r rhaglen niwrowahaniaeth ehangach yn well.  Mae pob grŵp wedi chwarae rôl hanfodol wrth ffurfio adnoddau, llywio polisi, cefnogi darpariaeth Rhaglen Wella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru a thynnu sylw at brofiad bywyd.

**Grŵp Tasg a Gorffen Cefnogaeth Unigol**

- Fe'i ffurfiwyd drwy uno'r Grŵp Ymgynghorol Proffesiynol ADHD a'r Grŵp Ymgynghorol Awtistiaeth
- Cyfarfu ddwywaith i archwilio anghenion cefnogi cyn ac ar ôl diagnosis
- Dynododd ddemograffeg allweddol (e.e. roedd mwyafrif yr atgyfeiriadau i rai rhwng 18 - 30 oed)
- Pwysleisiwyd yr angen am adnoddau i bawb sy'n niwrowahanol, waeth beth fo'r diagnosis

**Grŵp Ymgynghorol Clinigol ADHD**

- Parhau â'r cyfarfodydd rheolaidd gyda phwyslais ar baramedrau llwybr diagnostig
- Ymateb i geisiadau Llywodraeth Cymru am setiau data sylfaenol
- Adolygu'r Safonau Ansawdd Asesiadau ADHD i Oedolion a luniwyd yn ddiweddar gan Rwydwaith ADHD Oedolion y DU
- Bu clinigwyr yn cyd-gynhyrchu adnoddau seico-addysgol ac adolygu canllawiau ADHD

**Grŵp Ymgynghorol Profiad Bywyd**

- Unwyd grwpiau blaenorol yn un llais ar gyfer profiad bywyd niwrowahanol
- Cyd-gynhyrchwyd:
  - Taflenni Ymgynghorol newydd ar Awtistiaeth
  - Straeon digidol
- Rhannu profiadau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda iddyn nhw, fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu adnoddau eraill yn 2025/26
- Chwarae rôl ganolog wrth ddylunio ac ymddangos yn y modiwl e-ddysgu a ffilm ADHD

**Grŵp Ymgynghorol Rhieni Niwrowahanol**

- Lansio **Trafodaethau Sain Rhieni Niwrowahanol**
- Darparu llwyfan i rieni niwrowahanol i rannu profiadau bywyd a gwybodaeth
- Ymdrin â phynciau allweddol megis chwalu camsyniadau a rheoli anghenion amrywiol
- Cynnig cipolwg unigryw ar ddeinameg teulu o safbwynt niwrowahanol

## Edrych i'r Dyfodol

Mae newid i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn nodi nid yn unig newid enw, ond **ymrwymiad o'r newydd i gynhwysiant, cyd-gynhyrchu ac arloesedd**. Wrth symud ymlaen, mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn dal i gael ei arwain gan lais pobl niwrowahanol a'r cymunedau sy'n eu cefnogi, gan feithrin **cymdeithas wirioneddol niwro-gynhwysol yng Nghymru**.

## Adroddiad Data Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig 2024/25

### 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu data allweddol lefel uchel o bob Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) ledled Cymru, gan adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad staff.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae 2024/25 wedi parhau i herio pob un o'r saith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig o ran galw a chapasiti, fel y dangoswyd yn yr adroddiad Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Adroddiad Cryno (llyw.cymru) a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru.

Gwelwyd y penawdau data canlynol.

- **7,094** cyfeiriadau i'r gwasanaethau ar gyfer oedolion
- **57%** o'r rhain yn hunan-gyfeiriadau
- **72%** o'r cyfeiriadau ar gyfer oedolion yn gofyn am asesiadau diagnostig awtistiaeth a **28%** yn gofyn am gefnogaeth
- Derbyniodd **1,703** oedolyn asesiad diagnostig
- Derbyniodd **1,215** oedolyn ddiagnosis cadarnhaol o awtistiaeth
- Yn cyfateb i **71%** o'r rhai a aseswyd yn derbyn diagnosis positif o awtistiaeth
- **542** cyfeiriadau i'r gwasanaethau ar gyfer rhieni/ gofalwyr gyda **95%** o'r rhain yn hunan-gyfeiriadau
- **97%** o'r cyfeiriadau ar gyfer rhieni/ gofalwyr o oedolion awtistig a **3%** rhieni/ gofalwyr o blant awtistig
- **6,587** rhyngweithiau gydag pobl broffesiynol
- **3,263** cysylltiadau newydd gyda phobl broffesiynol
- **53%** o cysylltiadau gan gweithwyr iechyd proffesiynol, **30%** gan weithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol a **3%** o'r sector gwirfoddol

Mae'r  GAI yn darparu gwybodaeth a chymorth ôl-ddiagnostig, gan gynnwys cymorth unigol am gyfnod cyfyngedig. Mae'r Outcomes Star yn offeryn mesur canlyniadau a ddefnyddir gan y GAI wrth weithio gyda phobl ar sail un-i-un. Yn 24/25

- Dangosodd 98% o unigolion ganlyniadau gwell mewn o leiaf un maes
- Dangosodd 90% ganlyniadau gwell mewn o leiaf ddau faes
- Dangosodd 83% ganlyniadau gwell mewn o leiaf dri maes.

Mae'r GAI wedi llwyddo i gyflwyno ystod o waith grŵp ôl-ddiagnostig i gefnogi unigolion. Yn 24/25, mynychodd 1,548 o unigolion sesiynau grŵp.

> ***"Pobl hyfryd iawn. Bob amser yn ateb cwestiynau ac yn amyneddgar iawn. Yn egluro pethau, pynciau, emosiynau mewn ffordd dda, ffordd y gallaf ei deall. Yn eithaf trylwyr ac ati. Pobl wych a gwnaeth i mi deimlo fy mod i wedi cael fy nghlywed."***

## 2. Cyflwyniad

Mae 7 Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ledled Cymru, pob un wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i hymrwymiad i weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASA (Cynllun cyflawni ar gyfer anhwylder y sbectrwm awtistiaeth 2018 i 2021). Lansiwyd y cyntaf ym mis Gorffennaf 2017 a daeth yr un olaf yn weithredol ym mis Ebrill 2019.

Mae'r GAI yn darparu asesiad diagnostig a chymorth ôl-ddiagnostig i oedolion awtistig sy'n methu â chael mynediad at wasanaethau statudol oherwydd eu bod wedi'u heithrio rhag bod yn gymwys.

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymrwymo o'r cychwyn cyntaf, ynghyd ag Arweinwyr y GAI, i sicrhau bod effaith y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cael ei mesur.

Cesglir y data trwy gronfa ddata a reolir gan Data Cymru. Mae data'n cael ei fewnbynnu gan bob GAI bob chwarter a'i anfon trwy Emyr, safle cyfnewid ffeiliau diogel Data Cymru, yn seiliedig ar dri chategori, Data Oedolion, Data Rhieni Gofalwyr a Data Proffesiynol. Er mwyn cyfoethogi'r data, mae data ansoddol yn cael ei ddal trwy'r Outcomes Star, offeryn mesur canlyniadau, a thrwy astudiaethau achos.


## 3. Data Oedolion

Isod mae nifer yr cyfeiriadau sy'n ymwneud ag oedolion. Mae cyfeiriadau'n cyfeirio at geisiadau ffurfiol am wasanaethau gan y GAI.

Tabl 3.1: Nifer y rhyngweithiau a chyfeiriadau ar gyfer oedolion i'r GAI

| | |
|---|---|
| Cyfeiriadau ar gyfer oedolion awtistig | **7,094** |
| Cyfeirio gan weithwyr proffesiynol | 2,449 |
| Hunan-gyfeiriad | 4,406 |
| Cyfeirio gan rhieni/ gofalwyr | 239 |

Graff 3.1: Dadansoddiad o gyfeiriadau ar gyfer oedolion





Gellir rhannu ceisiadau cyfeirio yn ddau gategori, unigolion sydd eisoes â diagnosis o awtistiaeth ond sy'n ceisio cefnogaeth ac oedolion sy'n ceisio asesiad diagnostig. Isod mae Tabl a Graff yn dangos natur y cyfeiriadau i'r GAI.

Tabl 3.2: Natur y cyfeiriadau ar gyfer oedolion

| Defnyddwyr Gwasanaeth | | |
|---|---|---|
| | Oedolion awtistig yn gofyn am gefnogaeth | 1,990 |
| | Oedolion sy'n gofyn am asesiad diagnostig | 5,071 |

Graff 3.2: Natur y cyfeiriadau ar gyfer oedolion




Dangosir dosbarthiad oedran oedolion sy'n cyrchu'r gwasanaeth yn y Tabl a'r Graff canlynol. Mae'r opsiwn 'mae'n well gen i beidio â dweud' yn cynrychioli'r rhai na fyddai'n briodol casglu'r data hwn yn awtomatig. Gall hyn gynnwys pobl a welir mewn sesiynau galw heibio neu cyfeiriadau ymholi.

Tabl 3.3: Dosbarthiad oedran oedolion sy'n cyrchu gwasanaeth

| Dosbarthiad oedran | |
|---|---|
| 16 -17 | 187 |
| 18 - 25 | 2,066 |
| 26 - 45 | 2,993 |
| 46 - 64 | 948 |
| 65+ | 85 |
| Dymuno peidio dweud | 815 |

Graff 3.3: Dosbarthiad oedran oedolion sy'n cyrchu gwasanaeth





Dangosir rhyw oedolion sy'n cyrchu'r gwasanaeth yn y Tabl a'r Graff canlynol. Mae’r adran ‘Arall’ yn cynnwys pobl sy’n adnabod fel rhywiau amgen neu lle nad oedd y data yn hawdd ei goladu na’u hadnabod.

Tabl 3.4: Rhyw yr oedolion sy'n cyrchu gwasanaethau

| Rhyw | |
|---|---|
| Gwryw | 2,725 |
| Benyw | 3,696 |
| Gwell peidio dweud | 507 |
| Arall | 166 |

Graff 3.4: Rhyw yr oedolion awtistig sy'n cyrchu gwasanaethau





Mae'r Tabl a'r Graff isod yn dangos y prif reswm mae oedolion yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth. Gall hyn newid trwy drafodaethau cychwynnol gyda'r gwasanaeth ond mae'n rhoi syniad o rai o'r anawsterau sy'n cael eu nodi gan oedolion awtistig.

Tabl 3.5: Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth

| Prif reswm dros cyfeirio | |
|---|---|
| Cefnogaeth / cyngor ôl-ddiagnostig | 1,636 |
| Cefnogaeth cyflogaeth | 10 |
| Sgiliau byw bob dydd | 46 |
| Ymddygiad heriol | 4 |
| Hamdden | 12 |
| Sgiliau cymdeithasol | 30 |
| Asesiad diagnostig | 5,087 |
| Anrheoleiddio emosiynol | 51 |
| Pryder | 42 |
| Iselder | 4 |
| Cwsg / diet | 44 |
| Mynediad i wasanaethau eraill | 22 |
| Cefnogaeth rhieni | 8 |
| Arall | 123 |

Graff 3.5: : Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth





Isod mae canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r gwasanaethau i nodi patrymau mewn cyfeiriadau na ellir eu derbyn a'r rhai sydd angen gwybodaeth bellach.

Tabl 3.6: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau

| Canlyniad cyfeiriadau | |
|---|---|
| Penderfyniad | |
| Derbyn | 5,791 |
| Dim derbyn | 431 |
| Aros am fwy o wybodaeth | 722 |

Graff 3.6: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau





Isod mae dadansoddiad o gyfeiriadau na dderbyniwyd i mewn i'r gwasanaethau. Mae yna sawl rheswm nad yw cyfeiriad yn briodol, gan gynnwys rhywun sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau eraill fel gwasanaethau anabledd dysgu neu wasanaethau iechyd meddwl, neu nad yw'n briodol oherwydd oedran neu ardal ddaearyddol anghywir.

Tabl 3.7: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaeth

| Rheswm dros beidio â derbyn cyfeiriadau | |
|---|---|
| Tu allan i ardal | 11 |
| Ddim yn briodol | 272 |
| Gwybodaeth annigonol | 186 |

Graff 3.7: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaeth





Mae'r Tabl a'r Graff isod yn darlunio ymyriadau a dderbynnir gan oedolion sy'n cyrchu'r gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi syniad o ba fath o wasanaethau sydd eu hangen ar oedolion awtistig.

Tabl 3.8: Yr ymyriadau a dderbynnir gan oedolion o'r gwasanaeth

| Ymyrraeth a dderbyniwyd | |
|---|---|
| Asesiad Diagnostig | 1,848 |
| Staff Seicoleg y GAI | 242 |
| Staff Therapi Lleferydd ac Iaith y GAI | 201 |
| Staff Therapi Galwedigaethol y GAI | 222 |
| Dietegwyr y GAI | 62 |
| Gweithwyr Cefnogol y GAI | 2,613 |
| Mynediad i grŵp cymorth | 1,097 |
| Cyfeirio i wasanaeth arall | 57 |
| Dim gweithredu pellach | 73 |
| Cyfeirio at wasanaeth arall | 195 |
| Darparu gwybodaeth | 304 |
| Ymarferydd Awtistiaeth | 403 |
| Gweithiwr cymdeithasol | 163 |
| Nyrs cofrestredig | 26 |
| Rheolwr tîm GAI | 267 |
| Arall | 25 |

Graff 3.8: Yr ymyriadau a dderbynnir gan oedolion o'r gwasanaeth




Dangosir prydlondeb cefnogaeth ac asesiad diagnostig mewn wythnosau yn y Tabl isod. Mae'r data yn seiliedig ar chwarter 4 2024/25 yn unig gan ei fod yn dangos darlun mwy cywir o'r sefyllfa bresennol.

Tabl 3.9: Prydlondeb cefnogaeth ac asesiad diagnostig yn ogystal â data diagnosis cadarnhaol ar gyfer oedolion awtistig

| Prydlondeb cefnogaeth | |
|---|---|
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o'r pwynt derbyniwyd cyfeiriad i'r pwynt o'r dderbyn | 2.1 |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o dderbyn cyfeiriad i ddechrau ymyriad | 8.4 |
| **Prydlondeb asesiad diagnostig** | |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o'r pwynt derbyniwyd cyfeiriad i'r pwynt o'r dderbyn | 3.7 |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o dderbyn cyfeiriad i ddechrau ymyriad | 115.4 |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o apwyntiad cychwynnol i diagnosis / canlyniad | 4.9 |

Mae'r Tabl isod yn dangos nifer yr asesiadau diagnostig a gynhaliwyd gan yr GAI a'r nifer a arweiniodd at ddiagnosis cadarnhaol.

Tabl 3.10: Asesiadau diagnostig

| Asesiadau diagnostig | |
|---|---|
| Nifer yr oedolion a dderbyniodd asesiad | **1,703** |
| Nifer yr asesiadau sy'n arwain at ddiagnosis cadarnhaol | 1,215 |
| Nifer o oedolion ar y rhestr aros ar gyfer asesiad diagnosis ar diwedd y chwarter | 8,617 |

Mae'r Tabl isod yn nodi gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaethau, gan gynnwys nifer y sesiynau grŵp a gynhaliwyd, cwynion ffurfiol a chanmoliaeth a dderbyniwyd.

Tabl 3.11: Gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaethau

| Gwybodaeth ychwanegol | |
|---|---|
| Nifer y sesiynau grŵp cymorth a gynhaliwyd | 496 |
| Nifer o bobl a fynychodd y sesiynau grŵp | 1,548 |
| Nifer y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd | 21 |
| Nifer y canmoliaeth a dderbyniwyd | 293 |

## 4. Data Rhieni/ Gofalwyr


Er nad yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, mae'r gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi rhieni a gofalwyr. Isod mae data sy'n gysylltiedig â'r hyn a ddarparwyd gan yr GAI yn 2024/25.

Isod mae nifer y rhyngweithiau a cyfeiriadau sy'n gysylltiedig â rhieni a gofalwyr. Gall rhyngweithiau gynnwys trafodaethau anffurfiol trwy e-bost, galwadau ffôn neu wyneb yn wyneb. Gall y rhain arwain at cyfeiriad ffurfiol i'r gwasanaeth neu beidio a gallant gynnwys cyfeirio at wasanaethau mwy addas eraill. Mae cyfeiriadau yn cyfeirio at geisiadau ffurfiol am wasanaethau gan yr GAI.

Tabl 4.1: Nifer y rhyngweithiau a cyfeiriadau ar gyfer rhieni a gofalwyr i'r GAI

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngweithiau gyda rhieni/ gofalwyr | | **2,073** |
| Cyfeiriadau ar gyfer rhieni/ gofalwyr | | **542** |
| | Cyfeiriwyd gan weithwyr proffesiynol | 25 |
| | Hunan-gyfeiriad | 517 |

Graff 4.1: Dadansoddiad o gyfeiriadau ar gyfer rhieni a gofalwyr





Mae'r tabl a graff isod yn nodi a yw defnyddwyr gwasanaeth yn rhieni/ gofalwyr oedolion awtistig neu blant. Mae'r categori 'arall' yn cynnwys rhieni / gofalwyr sy'n gofalu am unigolion dros ac o dan 18 oed ac achosion lle nad oedd y data ar gael.

Tabl 4.2: Natur y gwasanaethau y mae rhieni a gofalwyr yn eu cyrchu

| Defnyddiwr gwasanaeth | |
|---|---|
| Rhieni / gofalwyr oedolyn awtistig | 169 |
| Rhieni / gofalwyr plant awtistig | 5 |
| Arall | 0 |

Graff 4.2: Natur y gwasanaethau y mae rhieni a gofalwyr yn eu cyrchu





Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos y prif reswm mae rhieni / gofalwyr yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth. Gall hyn newid trwy drafodaethau cychwynnol gyda'r gwasanaeth ond mae'n rhoi syniad o'r gefnogaeth y mae rhieni / gofalwyr yn ei cheisio.

Tabl 4.3: Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth

| Prif Rheswm dros cyfeirio | |
|---|---|
| Cefnogaeth / cyngor ôl-ddiagnostig | 61 |
| Cefnogaeth addysg | 50 |
| Sgiliau byw bob dydd | 4 |
| Ymddygiad heriol | 0 |
| Hamdden | 9 |
| Sgiliau cymdeithasol | 0 |
| Cefnogaeth Rhiant / Gofalwr | 349 |
| Anrheoleiddio emosiynol | 6 |
| Pryder | 0 |
| Iselder | 0 |
| Cwsg / diet | 1 |
| Mynediad at wasanaethau eraill | 2 |
| Cefnogaeth rhiantu (rhaglenni) | 3 |
| Arall | 56 |

Tabl 4.3: Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth





Isod mae canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r gwasanaethau i adnabod patrymau mewn cyfeiriadau na ellir eu derbyn a'r rhai sydd angen gwybodaeth bellach.

Tabl 4.4: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau

| Canlyniad cyfeiriadau | |
|---|---|
| Penderfyniad | |
| Derbyn | 521 |
| Dim derbyn | 7 |
| Aros am gwybodaeth bellach | 5 |

Graff 4.4: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau





Isod mae dadansoddiad o cyfeiriadau na dderbyniwyd i mewn i'r gwasanaethau. Mae yna sawl rheswm pam na fydd cyfeiriad yn briodol, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau eraill.

Tabl 4.5: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaethau

| Rheswm dros beidio â derbyn y cyfeiriad | |
|---|---|
| Tu allan i'r ardal | 0 |
| Ddim yn briodol | 6 |
| Gwybodaeth annigonol | 4 |

Graff 4.5: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaethau





Mae'r tabl a graff isod yn dangos yr ymyriadau a dderbyniwyd gan rieni / gofalwyr sy'n cyrchu'r gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi syniad o ba fath o wasanaethau sydd eu hangen ar rieni / gofalwyr.

Tabl 4.6: Yr ymyriadau a dderbyniwyd gan rieni a gofalwyr gan y gwasanaeth

| Ymyrraeth a dderbyniwyd | |
|---|---|
| Staff Seicoleg y GAI | 29 |
| Staff Therapi Lleferydd ac Iaith y GAI | 14 |
| Staff Therapi Galwedigaethol y GAI | 24 |
| Dietegwyr y GAI | 13 |
| Gweithwyr Cefnogol y GAI | 210 |
| Ymarferydd Awtistiaeth | 51 |
| Mynediad i grŵp cymorth | 78 |
| Cyfeirio i wasanaeth arall | 70 |
| Dim gweithredu pellach | 0 |
| Cyfeirio at wasanaeth arall | 2 |
| Darparu gwybodaeth | 0 |
| Arall | 173 |

Graff 4.6: Yr ymyriadau a dderbyniwyd gan rieni a gofalwyr gan y gwasanaeth




Dangosir prydlondeb cefnogaeth i rieni/ gofalwyr mewn wythnosau yn y tabl isod. Mae'r data yn seiliedig ar chwarter 4 2024/25 yn unig gan ei fod yn dangos darlun mwy cywir o'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am nifer y sesiynau grŵp a gynhaliwyd a nifer y cwynion a'r ganmoliaeth ffurfiol a dderbyniwyd dros y flwyddyn 2024/25.

Tabl 4.5: Gwybodaeth ychwanegol i rieni a gofalwyr

| Gwybodaeth ychwanegol | |
|---|---|
| Nifer y sesiynau grŵp cymorth a gynhaliwyd | 121 |
| Nifer y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd | 3 |
| Nifer y canmoliaeth a dderbyniwyd | 27 |

## 5. Data Gweithwyr Proffesiynol

Agwedd bwysig o rôl yr GAI yw gweithio gydag ac addysgu gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o wasanaethau gwahanol er mwyn cefnogi pobl awtistig a'u teuluoedd. Mae hyfforddiant wedi'i adnabod fel angen ymhlith gweithwyr proffesiynol ac yn benodol staff iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'r GAI yn darparu elfen o hyn. Mae'r data isod yn gysylltiedig â'r gwaith a wnaed gyda gweithwyr proffesiynol gan yr GAI yn 2024/25.

Isod mae nifer y rhyngweithiau a chysylltiadau newydd gan weithwyr proffesiynol i'r gwasanaeth. Gall rhyngweithiau gynnwys trafodaethau anffurfiol trwy e-bost, galwadau ffôn neu wyneb yn wyneb. Gall y rhain arwain at cysylltiadau mwy ffurfiol gyda'r gwasanaeth neu beidio, a gallant gynnwys cyfeirio at wasanaethau mwy addas eraill. Mae cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol yn cyfeirio at waith mwy ffurfiol gyda'r gwasanaeth.

Tabl 5.1: Nifer y rhyngweithiau a chysylltiadau newydd â gweithwyr proffesiynol


| | |
|---|---|
| Rhyngweithiau gyda gweithwyr proffesiynol | **6,587** |
| Cysylltiadau newydd gyda gweithwyr proffesiynol | 3,263 |

Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos y prif reswm bod gweithwyr proffesiynol yn cysylltu â'r gwasanaeth

Tabl 5.2: Y prif reswm dros ddod i gysylltiad â'r gwasanaeth

| Prif reswm dros cyswllt | |
|---|---|
| Gofyn am waith / ymgynghoriad ar y cyd ar gyfer cleient | 1,089 |
| Cais am hyfforddiant | 305 |
| Ymholiad cyffredinol arall | 1,869 |

Graff 5.2: Y prif reswm cychwynnol dros ddod i gysylltiad â'r gwasanaeth




Mae'r tabl a graff canlynol yn dangos y sector y mae gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaethau yn dod ohono. Gall y categori ‘arall’ gynnwys gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio yn y gwasanaethau sifil er enghraifft gweithwyr DWP neu efallai na fydd y wybodaeth ar gael i’w chynnwys.

Tabl 5.3: Y sector y daw'r gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ohono

| Sector | |
|---|---|
| Awdurdod Lleol | 993 |
| Iechyd | 1,729 |
| Sector Preifat | 77 |
| Gwirfoddol / Trydydd Sector | 93 |
| Cyfiawnder troseddol | 26 |
| Arall | 346 |

Graff 5.3: Y sector y daw'r gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ohono



## 6. Outcomes Star a Gwybodaeth Ychwanegol

Offeryn mesur canlyniadau yw'r Outcomes Star a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig wrth weithio gyda phobl ar sail un-i-un. Gall y Outcomes Star ddangos y pellter a deithiwyd gan bobl ar feysydd canlyniad a nodwyd a chaiff ei werthuso ar y cyd gan y person ei hun a'r gweithiwr sy'n eu cefnogi. Mae'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn defnyddio'r Spectrum Star yn bennaf ac mae naw maes canlyniad iddo.

Isod mae Adroddiad Pellter a Deithiwyd 2024/25 GAI Spectrum Star.


Current Filters

**Account:** Wales National ASD Development Project | **Service(s):** All | **Star:** Spectrum Star | **Lead Practitioner(s):** All Lead Practitioners | **Time Period:** 01/04/2024 to 31/03/2025 | **Type of Engagement:** All engagements active within time period | **Engagement Used:** All engagements (service users will be included multiple times) | **Baseline:** 1st Star in engagement | **Comparison:** Latest Star in engagement | **Total Service Users:** 58


### Are people making progress?

| In 1+ outcome areas<br>Percentage of people making progress in at least one outcome area | In 2+ outcome areas<br>Percentage of people making progress in at least two outcome areas | In 3+ outcome areas<br>Percentage of people making progress in at least three outcome areas | Outcome areas showing progress<br>Average number of outcome areas in which someone is making progress |
|---|---|---|---|
| 98% | 90% | 83% | 5 |


### How much progress are people making in each outcome area?




### In each outcome area, how much progress are people making?




### In each outcome area, by how much are people dropping back?



Mae'r adroddiad yn dangos bod pob person wedi gwneud cynnydd mewn o leiaf un maes canlyniad, gyda 83% o bobl yn gwneud cynnydd mewn tri maes canlyniad neu fwy.

Gwybodaeth bellach y gellir ei defnyddio i ddangos y gwaith a wneir gan y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yw adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gwerthusiadau grŵp. Dyma rai enghreifftiau o adborth a dderbyniwyd gan y GAI yn 2024/25.

> “Mae ein profiad yma wedi bod yn gadarnhaol iawn. Gwnaeth yr arweinwyr asesu fy nghlywed i, roedden nhw’n empathig, yn wybodus ac roedd eu geiriau’n gefnogol iawn.”
>
> “Pobl hyfryd iawn. Bob amser yn ateb cwestiynau ac yn amyneddgar iawn. Yn egluro pethau, pynciau, emosiynau mewn ffordd dda, ffordd y gallaf ei deall. Yn eithaf trylwyr a llym ac ati. Pobl wych a gwnaeth i mi deimlo fy mod i wedi cael fy nghlywed.”
>
> “Teimlais fy mod i wedi cael fy ngweld a fy nghlywed, roedd y wybodaeth a’r wybodaeth ymlaen llaw yn ystod y sesiwn yn ardderchog. Diolch hefyd am ffonio i wirio a fyddwn i’n mynychu’r apwyntiad.”
>
> Gwasanaeth Awdurdodedig Caerdydd a’r Fro

Dyma rywfaint o wybodaeth gan grwpiau a gynhaliwyd gan rai o'r GAI.

> Gweithdy 'Cyflwyniad i awtistiaeth' GAI Caerdydd a'r Fro
> Roedd 100% o'r cyfranogwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn ag ansawdd y wybodaeth a gyflwynwyd ac roedd 100% o'r cyfranogwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r wybodaeth a gawsant. Nododd un cyfranogwr fod "sawl profiad o'r mynychwyr/plant y mynychwyr yn mewnwelediad i mi gan y gallwn weld tebygolrwydd/cyfatebiaethau â fy mab fy hun"

## 7. Casgliad

Mae'r data'n dangos bod y galw ar y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn parhau i dyfu gyda'r gwasanaethau'n derbyn nifer uchel o gyfeiriadau ac yn gweithio gyda nifer cynyddol o bobl.

Ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i oedolion, roedd 62% o'r cyfeiriadau yn hunan-gyfeiriadau gan yr oedolion eu hunain. Roedd saith deg dau y cant o'r cyfeiriadau ar gyfer asesiad diagnostig a 28% ar gyfer cefnogaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiad oedran oedolion awtistig sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhwng 18-45.

Yr ymyriadau a gyrchir amlaf oedd cefnogaeth gan weithwyr cymorth GAI, asesiadau diagnostig, mynediad i grwpiau cefnogaeth a gweithio gyda ymarferwr awtistiaeth.

Gellir nodi hefyd y bu cynnydd bychan o 5.6% yn y cyfeiriadau i'r gwasanaeth gan oedolion yn 2024/25 o'i gymharu â ffigurau 2023/24.  Yn ogystal bu cynnydd o 25.6% yn yr asesiadau diagnostig a gynhaliwyd yn 2024/25 o gymharu â 2023/24. Mae hyn oherwydd capasiti ychwanegol a ariannwyd dros dro drwy'r Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth. Daeth y cyllid hwn i ben ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant Ddatganiad Ysgrifenedig ar 27ain Mehefin 2025 yn cyhoeddi ailgyfeirio'r cyllid i fynd i'r afael â heriau sylweddol o ran cael mynediad at asesiadau diagnostig niwroddatblygiadol plant. Gellir rhagweld y bydd nifer yr asesiadau diagnostig a gwblhawyd gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn 25/26 yn lleihau'n sylweddol.

Roedd 97% o'r cyfeiriadau yn hunan-gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i rieni / gofalwyr. Roedd nawdeg pump y cant o'r cyfeiriadau gan rieni a gofalwyr oedolion a 5% gan rieni a gofalwyr plant. Y prif reswm dros cyfeiriadau oedd cefnogaeth rhieni / gofalwyr, cefnogaeth / cyngor ôl-ddiagnostig, a cefnogaeth addysg.

Yr ymyriadau a gyrchir amlaf oedd cefnogaeth gan weithwyr cymorth, darparu gwybodaeth, cefnogaeth gan rheolwyr tîm GAI, a mynediad i grwpiau cefnogi. Gellir nodi hefyd y bu cynnydd o 16% yn y cyfeiriadau i'r gwasanaeth gan rieni / gofalwyr yn 2024/25 o'i gymharu â ffigurau 2023/24.

Mae'r data'n dangos bod rhan sylweddol o waith y gwasanaethau yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol. Y prif reswm dros cyfeiriadau oedd ymholiadau cyffredinol gan 57% a gofyn am waith ar y cyd / ymgynghori â'r cleient gan 33%. Yn ogystal, roedd 53% yn weithwyr proffesiynol o'r bwrdd iechyd, 30% yn dod o awdurdodau lleol a 3% o'r sector gwirfoddol. Gellir nodi hefyd y bu cynnydd o 39% yn y cysylltiadau â'r gwasanaeth gan weithwyr proffesiynol yn 2024/25 o'i gymharu â ffigurau 2023/24.

Mae gwerthusiad canlyniadau drwy'r Outcomes Star ac adborth gwasanaeth yn dangos bod y GAI wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl yn 2024/25.

[1] [Written Statement: Transforming Neurodivergence Services (27 June 2025) | GOV.WALES]